

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 372 - 60c
Ebrill 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Siaradwyr
o fri gyda'r
C.Ff.I.**



Tudalen 5

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 14

**Eisteddfodau
Rhanbarth
Ceredigion**



Tudalen 8, 9, 23, 24

Parêd Llanbed a llwyddiannau



Parêd Gŵyl Ddewi Llambled gyda phlant Ysgol Bro Pedr yn cyrraedd Sgwâr Harford



Llongyfarchiadau mawr iawn i Elen Lloyd-Jones, ar gael ei hethol yn Frenhines Sir Ceredigion ac i Endaf Griffiths am gael ei ethol yn Ffermwr Ifanc y Sir! Mae'r ddau yn aelodau o C.Ff.I. Pontsian. Etholwyd Mared Lloyd-Jones, CFfl Llanddewi Brefi; John Jenkins, CFfl Lledrod; Carys Mair Jones, CFfl Bro'r Dderi; a Rhodri Griffiths, CFfl Llangwyrfon yn Ddirprwyon ar gyfer y flwyddyn.



Enillwyd Cyngrhair 5 De Cymru gan Glwb Hoci Llanybydder eleni. Yn wir, domineiddwyd y gynghrair o'r dechrau un. Teyrnged i'r tîm yw'r ffaith mai ond 3 gôl sydd wedi eu hatal yn ystod y 12 gêm a fu. Ymlaen nawr at uchafbwynt y tymor sef gêm derfynol y Plât ar y 13eg o Ebrill ym Mhen-y-bont ar Ogwr.



Uchafbwyntiau'r mis ar
clonc360.cymru

● CYDNABYDDIAETH WYCH WRTH DDERBYN STATWS DI-BLASTIG

Mae Llanbedr Pont Steffan wedi ennill statws Cymuned Ddi-blastig! Credir mai Llanbedr yw'r ail gymuned mewndirol yng Nghymru, ac yn un o 50 o gymunedau yn y DU hyd yn hyn, i gyflawni Statws Cymunedol Ddi-blastig.



● CROESO I GERDDWYR YN EIN TREF

Mae Llanbedr Pont Steffan ar y ffordd i ennill statws Croeso i Gerddwyr, yn y gobaith y byddwn yn annog pob lleol i wneud mwy o ddefnydd o'r llwybrau cerdded a denu ymwelwyr.



● TRI CHYNNIG I GYMRO

Tra'ch bod chi i gyd yn mwynhau'ch 'cawl twymo' nos Sadwrn 2il o Fawrth roedd cystadleuwyr y byd raliio yn ymgynull ar y Rookery yn Llanbedr i gymryd rhan yn Rali Bro Caron, rali nos flynyddol wedi'i threfnu gan Glwb Moduro Llanbedr.



● DATHLU DYDD EIN NAWDDSANT

Ar noson wlyb a gwyntog, mentrodd nifer fawr o bobl allan gan wybod, mae'n siwr, fod yna wledd yn eu disgwyl - rhwng y cawl a'r caws, y pwdin reis a'r crymbls, mewn noson "Cawl a Chân" a drefnwyd gan Siambr Fasnach Llanbedr.



Ffili aros tan y papur nesa?
– **clonc360.cymru**

Parêd Llambed



Sefydliad y Merched Coedmor.



Parêd Gŵyl Ddewi Llambed gyda phlant Ysgol Dyffryn Cledlyn yn cychwyn eu taith



Delyth Jones, Y Pantri, yn darparu cacennau i blant yr ysgol.

Mae cyfres Priodas Pum Mil yn chwilio am gyplau!

Yn dilyn llwyddiant y gyfres ddiwethaf mae criw Priodas Pum Mil yn chwilio am fwy o gyplau sy'n fodlon i ffrindiau a theulu drefnu eu priodas, a hynny ar gyllideb o £5000!



Rydym yn chwilio am gyplau â'u bryd ar briodas anarferol mewn lleoliadau annisgwyl ac yn croesawu cyplau o bob oedran.

Anfonwch eich manylion ac ychydig o'ch hanes at priodaspummil@boomcymru.co.uk

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Ebrill Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Mai Siwan Richards, 9 Cwrt Dulas, Llanbedd 421534
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@bopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyd Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Sian Roberts-Jones, Croesor 423313
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafoed 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmeri 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbedd.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50. • Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Bwrlwm bro

Gobeithio y bydd Ceredigion gyfan yn elwa o gael yr Eisteddfod Genedlaethol yn y sir yn 2020. Yn ardal Llambled, ry'n ni ond tafliaid carreg i'r Maes yn Nhregaron. Gobeithio daw llawer i aros yn Llambled a'r pentrefi o amgylch, gan wneud yn fawr o'r cyfleusterau sy'n y coleg, yr ychydig westai a'r llefydd aros sy'n y dre, a'r bythynnod gwyliau mas yn y wlad. Bydd hynny'n help i hybu economi'r ardal yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Ond yn llawer pwysicach na hynny (yn fy marn i) yw'r hyn sy'n digwydd yn y fro o nawr hyd at Awst 2020, a'r hyn sy'n digwydd wedi'r Eisteddfod fynd heibio. Mae bwrlwm wedi dechrau yn barod - mae pwyllgor yn Llambled ac yn y cymunedau gwledig, ac mae pawb eisoes wedi dechre ar gyfres o weithgareddau i godi arian. Nid yn unig codi arian mae digwyddiadau yma'n ei wneud serch hynny, ond dod â'r gymdeithas at ei gilydd a chreu cyfleon i gymuned gyd-weithio a chyd-fwynhau. Yn y noson stwffio gynhaliwyd yn y Shapla fis Chwefror er enghraifft, roedd hi'n braf gweld llond y bwyty a theuluoedd wedi dod ynghyd - roedd yna drawsodriad o bobol, o 90+ oed hyd at 19 mis oed.

Mae'n dda cael cyfleon i Gymry Cymraeg gael cymdeithasu, a hefyd rhoi croeso i ddysgwyr a'r di-Gymraeg, er mwyn i bawb sylweddoli'r hyn yw'r Eisteddfod - gŵyl gelfyddydol anferth sy'n dathlu Cymreictod a'i diwylliant. Fy ngobaith i yw gweld y cydweithio a'r cymdeithasu yn mynd o nerth i nerth, ac y bydd hyn yn parhau wedi Awst 2020.

Mae'n rhaid cofio bod yr hyn sy'n greiddiol i'r Eisteddfod Genedlaethol - Cymreictod a chelfyddyd diwylliannol - yn perthyn i'r fro yma'n barod. Mae Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llambled yn un o eisteddfodau mawr Cymru, a da fyddai gweld mwy yn ei chefnogi. Efallai bydd y brwdfrydedd lleol at y Genedlaethol yn 2020 yn help ar gyfer mwy o stiwardiaid a gwirfoddolwyr Eisteddfod flynyddol RTJ Pantyfedwen Llambled.

Cloncen

Ble aeth pawb?



Tim Tafarn Cwmann yng Nghynghrair Dartiau Llanbedd 50 mlynedd yn ôl. Tymor 1968-69. Idwal Owens Tafarnwr, Denzil Williams, Dai Lloyd, Edgar Davies. Ieuan Williams, Irfon Davies, Aubrey Morris, Meirion Roach ac Allan Morris.

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbedd
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



Ceginau
Lifestyle
LKitchens Ltd

CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



EBRILL

- 5 Noson Caws a Gwin a Chlone yng Ngwesty'r Porth, Llandysul gyda Ben Lake AS; Canon Eileen Davies; Catrin Haf Jones a Dylan Iorwerth yn cadeirio. Elw tuag at MIND Cymru a Chanolfan Llyspedr.
- 7 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa Llanbedr Pont Steffan am 5.00y.h.
- 8 Merched y Wawr Llanbed yn ymweld â chanolfan LAS yng nghwmni Tina Morris.
- 8 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach am 7.00yh.
- 10 Cinio Dathlu 70 oed Sefydliad y Merched Llanwnnen yng Nghegin Gareth am ganol dydd.
- 11 Noson Bingo Cylch Meithrin Cledlyn yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch am 6.30yh.
- 12 Pwyllgor y Pentref yn cynnal noson "Queen selection ball" yng Ngwesty Crosshands am 6.00y.h.
- 13 Marchnad Grefftau yn Neuadd Llanfair Clydogau 11.00yb tan 3.00yp.
- 14 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Bwlchyfadfa. Plant ac Ieuenctid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.h.
- 15 Clwb Stwffio 2 yn Ling di Long. Tocynnau gan Carys Davies, Carys Lloyd Jones neu Dawns Emporium. Trefnir gan Gronfa leol Llanbed ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2020.
- 19 Bore'r Groglith. Cyfarfod yn y Parc wrth Neuadd yr Eglwys am 10.00y.b. Gorymdaith drwy'r dref i ddilyn a Gwasanaeth Eciwmenaidd yn Noddfa am 10.30y.b. Paned a chacen i ddilyn am 11.15y.b.
- 20 Sioe Feirch Llanbed ar Gaeau Llanllyr, Talsarn gan ddechrau am 9.00yb.
- 20 Bois y Gilfach yn Neuadd Coleg y Drindod Dewi Sant, Llanbed yng nghwmni Rhys Meirion a Chôr Llanddarog. Ffion Dafis a Dr Elin Jones, Oncolegydd Ysbyty Bronglais gyda Elin Jones AC yn Llywydd. Elw tuag at Uned newydd Chemotherapi i Ysbyty Bronglais.
- 21 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi. Plant ac Ieuenctid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.h.
- 24 Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Groes, Llanwnnen.
- 26 David Cooper yn traddodi 'My life as a Cold War Warrior' ei brofiadau o fyw a gweithio yn yr Almaen yn y 60au yn Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog am 7.00y.h. Tocynnau £10 gan gynnwys bwyd a diod.
- 26 Siapio Dyfodol Llanbed - Neuadd Fictoria Llanbed am 7 o'r gloch.
- 27 Noson Stwffio yng Nghlwb Golff Cilgwyn, Llangybi am 7.30yh a chodi arian tuag at Eisteddfod 2020.
- 27 Taith gerdded nodedig yng Nghoedwig Longwood am 1.00y.p. wrth y clwb rygbi. Ffurflenni noddi gan Ann Morgan 07791966122 neu Ysgol Bro Pedr. Elw i gronfa'r Eisteddfod.
- 28 Taith Gerdded Nodedig Plwyf Llanwenog 10.00yb Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach.
- 28 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi, Llanbed. Plant ac Ieuenctid am 2.00 a'r Oedolion am 5.30y.h.

MAI

- 4 Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Fadfa, Talgarreg.
- 4 Cwmni Myrddin yn cyflwyno 'Dau Hanner Brawd' gan Nan Lewis ac Eric Jones yn Theatr Mwldan, Aberteifi am 7.30y.h. Tocynnau ar gael gan y theatr 01239 621200. Pris £12 i bawb.
- 5 Te Prynhawn yng Nghanolfan Bentref Cwmann i godi arian at taith Llion Herbert i Borneo. Tocynnau yn £15 ar gael drwy ffonio 421392.
- 6 Ras Dyffryn Cledlyn.
- 6 Gŵyl Calan Mai Pumsaint. Sioe, Carnifal a mwy. Manylion pellach wrth Mair ar 01558 650309.
- 8 Cyfarfod Apêl Eisteddfod 2020 Ardal Llangybi yn Ysgol y Dderi am 7.30yh.
- 11 Rali C.Ff.I. Sir Gâr yn Nantyci, Caerfyrddin.
- 11-12 Gŵyl Lyfrau Llanbed.
- 12 Cymanfa Ganu Plant ac Oedolion yn Soar Llanbed am 5y.h.
- 14 Cyfarfod Blyneddol Papur Bro Clonc yn Llanbed am 7.00yh.
- 16 Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghapel Shiloh Llanbed, gydag anerchiad am Lesotho gan Mrs Pat Jones, Felindre, Cwmann am 7.00 y.h. Croeso gwresog i bawb.
- 18 Cystadleuaeth Bêl-droed Llanybydder ar y cae rygbi am 10.00yb.
- 19 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr ym Methel Silian am 4.00y.p.
- 19 Ras Fynydd Sarn Helen.
- 19 Cystadleuaeth Bêl-droed Llanybydder ar y cae rygbi gan ddechrau am 10.00 yb.
- 25 Carnifal Cwmann ar gaeau'r pentref.
- 26 Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal diwrnod It's a Knockout yn y cae rygbi am 12.30y.p.

MEHEFIN

- 1 Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Ynysforgan, Lledrod.
- 15 Gŵyl Bêl-droed Llanbed ar gaeau'r brifysgol gan ddechrau am 10.00yb.
- 23-29 Wythnos Carnifal Llanybydder.
- 28 Hufen a Mefus yng Nghwb Bowlio Llanbed, elw tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020, Artistiaid Ifanc ynghyd â Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch.
- 28 'Pnawn Pancws' yn Eglwys Santes Gwenog Llanwenog rhwng 2y.p a 7 y.h. Cewch glywed hanes yr Eglwys ac mi fydd drysau'r tŵr yn cael eu hagar i'r cyhoedd. Cyfle unigryw i ddringo'r grisiau mewnol i gopa Tŵr yr Eglwys a chael gweld yr olygfa arbennig. Bydd cyfran o'r elw yn mynd at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

GORFFENNAF

- 6 Sioe Amaethyddol Llanbed.
- 22-25 Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd.
- 25-28 Arddangosfa Gelf Llanfair Clydogau.
- 27 Ffair Fwyd Llanbed ar dir y brifysgol gan ddechrau am 10yb.

AWST

- 3 Carnifal Llanbed.
- 24 - 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr coed, ffensio a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Registered Business

Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymptau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



Eglwys Sant Iago Tysteb

Mae ficer Plwyf Pencarreg a Llanerwys sydd hefyd yn archddiacon Ceredigion, yr Hybarch Ddr Wil Strange yn ymddeol ddiwedd mis Mai. Unrhyw un a fyddai yn hoffi cyfrannu tuag at dysteb iddo i gysylltu â'r wardeniaid sef Mr Graham Evans neu Mr Danny Davies.

Dathlu Penblwydd

Llongyfarchiadau mawr i Llinos Jones, Araul ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Llysgenhadon Ifanc y Pentref

Ydych chi'n berson ifanc sy'n byw ym mhentref Cwmann a'r cylch?

Oes gennych chi syniadau am y math o weithgareddau y byddai pobl ifanc yn hoffi eu gweld yn y pentref?

Fyddech chi'n barod i weithio gyda'ch cyfoedion a Phwyllgor y Pentref i ddatblygu rhai o'r syniadau hyn?

Os felly, hoffai Pwyllgor y Pentref glywed gennych.

Eleni, yn dilyn penderfyniad i newid rywfaint ar drefn y Carnifal blyneddol, rydym wedi penderfynu penodi dau lysgennad ifanc i bentref Cwmann.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddau berson ifanc gynnig syniadau ar gyfer y math o weithgareddau y byddai pobl ifanc yn hoffi eu gweld yn y pentref a helpu Pwyllgor y Pentref i ddatblygu'r syniadau hyn.

Os oes gennych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod ddiddordeb mewn bod yn llysgennad y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw anfon neges destun at Sian Jones ar 07773 732707 i fynegi diddordeb. Rydym yn chwilio yn benodol am bobl ifanc sydd ym Mlwyddyn 10 hyd at 26 oed. Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yw 18 Ebrill 2019.

Bydd dau lysgennad yn cael eu dewis ar hap o blith yr holl enwau sy'n dod i law ac yn cael eu cyflwyno'n swyddogol yn y Carnifal sydd i'w gynnal ar y 25ain o Fai.

Felly, beth amdani? Y cyfan sydd ei angen arnoch yw egni, brwdfrydedd a syniadau da.

Enillwyr Misol Clwb 125 Neuadd Sant Iago Mis Mawrth 2019

1. Mr W. Mason, 21 Treherbert, Cwmann, 130. 2. Mrs L. Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 98. 3. Mrs Yvonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader 123. 4. Canon Wynzie Richards, Maesteifi, Cwmann, 143. 5. Mattie Williams, Ddeunant Hall, Cwmann, 70. 6. Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 62. 7. Margaret Jones, Y Glyn, Cwmann, 90.

Sefydliad y Merched Coedmor

Croesawyd pawb i'r Ganolfan i gyfarfod mis Chwefror gan y Llywydd Elma. Croesawodd aelodau o sefydliad y merched Cellan, Llanybydder a Pumsaint a oedd wedi ymuno am y noson. Aeth ymlaen i groesawu ein gwraig wadd Janice Richards o Gaerfyrddin, hi yw Llywydd Sefydliad y Merched Newchurch a'r testun oedd Tu ôl i'r Drws, sef Rhif 10 Stryd Downing. Roedd wedi gweithio yno am 29 o flynyddoedd gyda chwe Prif Weinidog ac yn mwynhau'r gwaith fel ysgrifenyddes.

Dechreuodd ar Chwefror 14eg 1971, roedd yno dri llawr ac un yn y cefn, coridor hir i ystafell y cabinet. Ar y llawr cyntaf oedd y dderbynfaf a'r wasg, ail lawr yn cael ei ddefnyddio gan y Prif Weinidog, llawr uchaf i'r switchboard a'r stafelloedd gwely. Cafodd deithio llawer gyda'r prif weinidogion. Y Prif Weinidog cyntaf oedd Edward Heath, yn hollol gyfforddus yng nghanol y gwagedd yn gerddor da. Jim Callaghan aros am dair blynedd ac yna Margaret Thatcher – awyrgylch hollol wahanol ganddi ac yn garedig iawn i'r gweithwyr, roedd pawb yn drist iawn pan gadawodd, a chafodd Janice eu anrhydeddu gyda'r M.B.E. John Major yn ŵr bonheddig ac wedi aros yn yr un stafell o'r dechre hyd at y diwedd am naw mlynedd a hanner. Tony Blair yn berson hollol wahanol eto, ac ef oedd wrth y llyw pan gafodd y Dywysoges Diana ei lladd, cafodd ymddeoliad cynnar.

Diolchodd Joyce am noson ddiddorol dros ben. Enillwyd y raffl gan Betty o Pumsaint; Tegwen, Coedmor; Valerie, Llanybydder; Maggie o Gellan; Heather, Llanybydder; Ann George, Pumsaint ac Iona, Coedmor.

Cafwyd cyfarfod busnes i ddilyn, Dominos yn y Porth, Llandysul ar nos Fawrth 26ain o Chwefror ac yna gorymdaith Gŵyl Ddewi yn Llambled ar ddydd Llun, Mawrth 4ydd ac Elma yn cario Baner S Y M Coedmor.

Dathlwyd Gŵyl Dewi yn yr Hedyn Mwstard ar nos Lun, Mawrth 4ydd a chroesawyd ni yno gan ein Llywydd Elma. Aeth ymlaen i groesawu artistiaid y noson sef Rhodri a Brychan Williams a Trystan Evans ac roedd Lynwen chwaer fach Trystan wedi dod hefyd – y tri yn ddisgyblion yn Ysgol Carreg Hirfaen. Cawsom ganddynt ganu gwerin, cerdd dant, llefaru a chanu, darnau roeddent wedi eu dysgu ar gyfer Eisteddfod yr Urdd – roedd ganddynt dalent aruthrol, ac mae dyfodol disglair i'r tri. Diolchwyd iddynt gan Gwen am noson arbennig, yn dilyn cawsom wledd arall i'w fwyta gan Liz a'r staff Hedyn Mwstard. Ar ôl y wledd

cyfarfod busnes. Cydymdeimlwyd â Brenda ar farwolaeth sydyn ei chwaer. Llongyfarchwyd y rhai oedd yn fuddugol yn y Dominos yn Llandysul - Noleen, Veronica, Iona a Morfudd. Diolchodd Elma i bawb a fu yn cerdded yn yr orymdaith yn Llanbed i ddathlu Gŵyl Dewi. Soniodd am farwolaeth un o aelodau gweithgar y Sir sef Zena Jenkins ac roedd carden wedi ei danfon i'r teulu. Gwahoddiad oddi wrth Sefydliad y Merched Llanybydder i noson gwis ar nos Iau, Mawrth 14eg, hefyd llythyr oddi wrth Bwyllgor Eisteddfod Genedlaethol ardal Llanbed, cwis yn Llain y Castell ar nos Wener, Mawrth 22ain. Diolchodd Gwen i bawb am noson hwylus. Enillwyd y raffl gan Tegwen.

Enillwyr Misol Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann Mawrth 2019

1. Mrs Verina Roberts, Gelliaur, Parc-Y-Rhos, Cwmann, 164. 2. Mr Emyr Jones, Araul, Cwmann, 109. 3. Donald a Helen Thomas, Ty-Hathren, Cwmann, 43. 4. Glyndwr Jones, Glyn, Cwmann, 204. 5. Mr A Mrs Dave Mildon, Garnets, Aberystwyth, 209. 6. Helen Davies, C/O Brynview, Parc-Y-Rhos, Cwmann, 57. 7. Emyr a Delyth Jacob, Frondeg, Pencarreg, 20.

Cwrtnewydd

Dathlu

Dathlodd Emyr Davies, Coedlannau Fach ben-blwydd arbennig ar ddiwedd mis Mawrth. Gobeithio dy fod wedi mwynhau dy ddiwrnod. Iechyd da i'r dyfodol.

Ffarmwr Ifanc


Llongyfarchiadau mawr i Endaf Griffiths, Penlanfawr ac aelod o CFfl Pontsian ar gael ei ddewis yn Ffarmwr Ifanc CFfl Ceredigion am y flwyddyn 2019/20. Bydd yn cael ei anrhydeddu ar lwyfan Rali'r Sir yn Lledrod ar Fehefin 2il.

Siarad Cyhoeddus

Llongyfarchiadau i Endaf Griffiths, Penlanfawr a Beca Jenkins ar eu llwyddiant yn Siarad Cyhoeddus CFfl Cymru yn Llanelwedd yn ystod mis Mawrth. Roedd Endaf yn aelod o dîm Ceredigion a enillodd y Tîm Gorau dan 26 oed yn y Saesneg



Enillodd Beca Jenkins, Hafan y Cwm y diolchdydd gorau yn y gystadleuaeth Saesneg dan 16 oed ac roedd yn aelod o'r tîm ddaeth yn ail. Roedd Hafwen Davies, Fronheulog yn gyd aelod gyda hi yn y tîm dan 16 oed [llun uchod].



Parêd Llambled



Y parêd yn cyrraedd sgwâr Harford, gyda phrif swyddogion Ysgol Bro Pedr yn cario'r faner



Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dinah Mulholland fod Llanbedr Pont Steffan wedi ennill statws cymuned ddi-blastig. Diolch yn fawr i holl drigolion Llanbedr Pont Steffan, busnesau a sefydliadau lleol a'u cynrychiolwyr sydd wedi bod yn rhan o'r cais hwn a byddwn yn cynnal digwyddiad cyhoeddus yn fuan i ddathlu'r gamp hon i Lanbedr Pont Steffan. Credir mai ni yw'r ail gymuned fewndirol yng Nghymru, ac un o'r 50 o gymunedau yn y DU hyd yma, sydd wedi ennill statws cymuned heb blastig. Nid yw hyn yn golygu bod Llanbedr Pont Steffan bellach yn rhydd o blastig o bell ffordd, ond ein bod wedi cael ein cydnabod fel un sy'n cymryd camau sylweddol i leihau ein defnydd o blastig un-tro.

Cefnogodd Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn unfrydol gynnig brys am yr hinsawdd a gyflwynwyd gan y Cyng. Dinah Mulholland a'i eilio gan y Cyng Gary Thorogood. Nod cychwynnol y cynnig yw lansio ymgynghoriad chwe mis yn cynnwys sefydliadau a phreswylwyr cyn llunio cynllun gweithredu. Dywedodd y Cyng. Mulholland fod arbenigwyr wedi rhybuddio nad oes ond 12 mlynedd cyn y byddai newid yn yr hinsawdd yn ddi-droi'n-ôl ac awgrymodd mai nawr oedd yr amser i godi pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd y Dirprwy Faer y Cyng. Rob Phillips yn teimlo y gellid rhedeg parciau mewn modd mwy 'eco gyfeillgar', tra gallai'r Cyngor hefyd ddefnyddio deunyddiau a fyddai'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd.

Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 07 Ionawr 2019. am 8.00yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Aled Vaughan - Cyflwynwyd gwybodaeth gan Aled Vaughan ynglŷn â sut i wneud cais ariannol i gronfa'r melinau gwynt.

Agenda - Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Tachwedd.

Y Cae Cwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad na fyddai'r cwmni oedd gan y Cyngor Sir yn archwilio'r adnoddau chwarae tan mis Ionawr neu fis Chwefror.

Roedd y Clerc wedi danfon llythyr at y Cylch Meithrin yn cadarnhau y byddai dyddiad gosod toiledau ar y safle yn cael ei ymestyn tan 31/10/2019.

Penderfynwyd y byddai'r Clerc holi am gost toiledau a fyddai'n cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer plant.

Gwefan Llanllwni - Roedd adroddiad o gyfarfod mis Tachwedd ar y wefan; byddai'n ymddangos yn y rhifyn nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader.'

Y Tŷ Hers - Roedd y Clerc wedi danfon llythyr at CFFI Llanllwni yn egluro bod y gwaith wedi ei gwblhau ar yr adeilad.

Awel y Mynydd - Yr oedd y Clerc wedi cysylltu â'r Swyddfa yn Llandysul ond nid oedd unrhyw ddatblygiad pellach ynglŷn â'r Blwch Postio.

Llogi'r Neuadd - Yr oedd y Clerc wedi talu am logi'r Neuadd am y cyfnod 01/04/2018 – 31/03/2019.

Cinio Blynnyddol - Bydd y ginio flynyddol ar 18 Ionawr 2019 am 8yh yn y Belle Vue.

Tyllau yn yr hewl - Ger Neuadd Deg; Hewl Maesnonni .Roedd y gwaith wedi eu gwblhau.

Penderfynwyd cefnogi Tenovus (Gofal Canser); Eisteddfod Gŵyl y Banc Awst Llanbedr Pont Steffan; Llifogydd Pontweli Llandysul

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Mawrth 2019. am 8.00yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod gan estyn pob dymuniad da i Alwena Mair Owen (merch y Clerc) a oedd wedi ennill y wobr gyntaf ar yr Unawd Telyn yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Byddai'n cynrychioli Ceredigion yng Nghaerdydd yn Mis Mai.

Agenda - Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Ionawr.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Yr oedd Cyngor Sir Gâr heb archwilio yr adnoddau chwarae, penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu eto am ddyddiad i archwilio. Penderfynwyd yn unfrydol hefyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Kangaloos i logi toiledau ar y cae chwarae o 01/04/2019 – 31/10/2019 ac am gost ychwanegol o £5 y mis er mwyn ychwanegu cyfleusterau newid ar gyfer plant.

Roedd angen ffensio o amgylch y Cae Chwarae a byddai adroddiad yn barod erbyn y cyfarfod nesaf.

Gwefan Llanllwni - Roedd adroddiad o gyfarfod mis Ionawr ar y wefan; byddai'n ymddangos yn y rhifyn nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader.'

Y We yn y Pentref - Roedd y Clerc wedi derbyn cwyn am gyflymder y we yn y plwyf. Roedd BT wedi cysylltu i ddweud bod trafnidiaeth ar yr hewl yn amharu ar gyflymder y we mewn rhai ardaloedd o fewn y pentref.

Cyngor Cymuned Llanfihangel Rhos-y-Corn - Daeth llythyr yn gofyn am gefnogaeth i sicrhau rhagor o gilfannau er mwyn i geir basio yn hwylus ar y mynydd. Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais.

Penderfynwyd cefnogi: Ambiwylans Awyr Cymru; Gofal mewn Galar; Marie Curie; Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019; CFFI Llanllwni; Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 13 Mai 2019 am 8.00yh.

Cyngor Bro Llanybydder

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i'r Heddlu i ofyn i un ohonynt i ddod i gyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanybydder.

Mae'r ceffyl pren wedi torri. Mae y Cyng Ieuan Davies yn mynd i wneud ymholiadau i gael ceffyl yn llai ac allan o fetal.

Bydd dau Diffibriliwr, un yn Llanybydder a'r llall yn Rhydcymerau yn cyrraedd yn y misoedd nesaf.

Tra bo Dau

Cynnig Cynnar

Ar hyn o bryd mae gennym gynnig arbennig ar gael i'n cwsmeriaid. Pris llawn y daith hon fydd £5,200 y pen; fodd bynnag, yr wyf yn falch o roi gwybod ichi y gallwn gynnig y daith hon i chi am y bris arbennig o **£4,985** am gyfnod cyfyngedig yn unig. Gallwch fanteisio ar y cynnig anhygoel hwn trwy wneud y taliad cyntaf o £2,000. Mae hyn yn eich gwarantu ar daith yn y gyfradd 'cynnig cynnar'. Os ydych chi am ddiogelu eich lle, yna mae yna £500 o flaendal, mae ad-dalu llawn ar gael (Noder: nid yw'r blaendal hwn yn gwarantu pris y cynnig, dim ond diogelu'ch lle ar y daith). Rhowch wybod i ni os hoffech wneud taliad a byddwn yn anfon manylion atoch ynglŷn â sut i wneud hyn.

Rydym wrthi'n cwblhau ein teithlen ar gyfer y daith ar y foment, ond rydym yn falch o ddweud y byddwn yn ymweld â'r Wladfa i gyd, o Puerto Madryn, Trelew a Gaiman ar yr arfordir i Esquel a Threvelin yn rhanbarth Andes.

Mae pris taith Tra Bo Dau yn cynnwys y canlynol:

- Awyrennau rhyngwladol a mewnol
- Llety
- Prydau (brecwast ac un pryd y dydd)
- Tywysydd ac Arweinydd Teithio Lleol
- Trosglwyddiadau a chludiant ar hyd y daith
- Amrywiol o weithgareddau i gynnwys ymweliadau ag ysgolion Cymraeg lleol

- Digwyddiadau i gwrdd â'r bobl leol
- Mynediad at atyniadau twristaidd a gynhwysir yn ein teithlen derfynol
- 5 tocyn Cyngerdd

Fel y crybwyllwyd, i'r rheiny a hoffai antur ymhellach i ffwrdd unwaith y bydd y daith drosodd (neu hyd yn oed cyn y daith), mae estyniadau i gyrchfannau eraill yn America Lladin hefyd ar gael (cysylltwch â ni am ddyfynbris).

Rhowch wybod i mi os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch. Mae croeso i chi e-bostio gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych, neu mae croeso i chi ein ffonio ar 01970 631737 neu hyd yn oed ymweld â ni yn y swyddfa.

Cofiwch y bydd llefydd ar y daith hon yn gyfyngedig, felly cofiwch gysylltu â ni cyn gynted ag y bo modd i gadw'ch lle.




Edrychaf ymlaen at glywed wrthoch.

Cofion Gorau,

Elin Calan Jones

Ymgynghorydd Teithio, Teithiau Tango, Heol Alexandra, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LN.

Ysgol Bro Pedr Hŷn



Cafwyd cyfres o weithgareddau arbennig yn yr ysgol i ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni ar ddydd Iau, Mawrth 7fed. Daeth disgyblion y cynradd â'u hoff lyfrau i'r ysgol ac yna trafod y stori gyda gweddill y dosbarth. Yn y campws uwchradd bu disgyblion o flwyddyn 7-9 gyda help disgyblion y chweched yn creu poster enfawr i ddathlu eu hoff gymeriadau ac i arddangos cymeriadau newydd sbon. Cynhaliwyd cystadleuaeth stori fer, 500 o eiriau hefyd a

llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a fu'n ysgrifennu straeon. Roedd y straeon yn wych, a nifer ohonynt yn ddoniol iawn. Anodd iawn oedd dewis yr enillwyr o tua 50 stori, ond Arlo Saad o 5Creuddyn ddaeth yn gyntaf gyda'r stori 'Saving Gharials'. Daeth Elisabeth Foot o 7S, Elen Morgan o 7D a Meredith Davies hefyd o 7D yn gydradd ail. Da iawn chi!

Ysgol Bro Pedr Iau

Diolch yn fawr i Mr Patterson a'r Parchedig Presdee am ddod i mewn i'r ysgol i gyflwyno gwasanaethau diddorol a phwrpasol.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn gwneud cwrs beicio diogel yn ddiweddar – diolch i Graham am hyfforddi.



Bu Lucy, Caitlin, Tomos ac Osian yn cymryd rhan yng nghwis Dim Clem a drefnwyd gan CERED yn ddiweddar gan lwyddo i gymhwyso i'r ail rownd a gwneud yn arbennig o dda yno hefyd.

Ar ddiwrnod y llyfr daeth yr awdures enwog Mared Llwyd i siarad â disgyblion blynyddoedd 5 a 6 a diolch iddi am ei chyflwyniad hynod ddiddorol ac am ysbyrdoli'r plant i ddarllen ac ysgrifennu storïau. Bu'r disgyblion hefyd yn rhannu eu hoff storïau a mynegi barn. Yn ogystal cafwyd cystadleuaeth ysgrifennu stori yn llyfrgell yr ysgol a llongyfarchiadau mawr i Arlo Saad am gipio'r wobr gyntaf.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 3 i 8 gyfle i orymdeithio ym mharêd Gŵyl Ddewi Tref Llamedd ac yn dilyn hynny disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn cael ymuno yn y dathliadau yn Neuadd Fictoria gydag ysgolion y cylch a pherfformio cân. Diolch am gael bod yn rhan o'r dathliadau.

Yn Eisteddfod Gylch yr Urdd gynradd cafwyd cryn lwyddiant - da iawn bawb a phob dymuniad da i'r disgyblion fydd yn cynrychioli'r cylch yn yr Eisteddfod Sir. Blwyddyn 2 ac iau Llefaru iaith gyntaf - 3ydd Tia Gilbert

Llefaru ail-iaith - 1af Jack Bailey 2ail Seirian Cutler 3ydd Filip F Blwyddyn 3 a 4 Llefaru iaith gyntaf - 2ail Fflur Meredith Llefaru i ddysgwyr - 1af Joseph Palmer. 2ail Sophie Cotton 3ydd Lily Edgell a Jade Waller Blwyddyn 5 a 6 Llefaru ail-iaith - 1af Danielle Murray 2ail Kyna Logan 3ydd Micah Harvey Parti unsain i ddysgwyr - 1af Parti llefaru i ddysgwyr - 1af Parti unsain iaith gyntaf - 2ail Côr bl 6 ac iau - 2 ail . Diolch yn fawr iawn i holl staff yr ysgol a fu'n hyfforddi a chynorthwyo mewn unrhyw fodd ac hefyd i Eirian Jones ac Elin Williams am eu cymorth a'u cefnogaeth.

Yn yr Eisteddfod Offerynnol Sirol pleser oedd clywed yr unigolion yn perfformio'n raenus sef Alma, Tomos, Lowri, Marc, Charlotte yn ogystal â Ensemble yr ysgol sef Sion-Ifan, Charlotte, Tomos, Lowri, Alma a'r gerddorfa hefyd. Mae'n diolch ni yn fawr i Mrs Helen Williams, Mrs Pauline Jones a'r athrawon teithiol eraill am eu holl waith gyda'r plant yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth Darcey Lambert yn arbennig o dda yng nghystadleuaeth ddawns unigol hip-hop Sirol yr Urdd a llongyfarchiadau i Mabli Cutler ar ddod yn ail i ddisgyblion bl 7, 8 a 9. Gwnaeth tîm dawnsio disgo/hip hop yr ysgol yn arbennig o dda yn cyrraedd yr ail safle allan o wyth o dimau – diolch yn fawr iawn i Mrs Sally Saunders am ei gwaith yn hyfforddi.



Rhai o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr yn cerdded yn y Parêd Gŵyl Ddewi.



Parti Bl. 6 ac Iau – Adran Llamedd 2il.

Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion



Ysgol Bro Pedr - Ensemble Lleisiol Bl. 10 a dan 19 oed – 3ydd.



Dawns Werin Bl. 6 ac Iau [ysgolion dros 100 o blant] – Ysgol Dyffryn Cledlyn 2il.



Grŵp Llefaru Bl. 9 ac Iau [Adran] – Aelwyd Llambled 1af.



Betrys ac Alwena, Adran Llambled - Deuawd Bl. 6 ac Iau – 2il a Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac Iau 1af.



Côr Bl. 6 ac Iau [ysg hyd 150] – Ysgol Y Dderi 2il.



Sian Elin Williams, Aelwyd Llambled - Cyflwyniad Theatrïg Unigol 19 – 25 oed – 1af.



Mabli Cutler, Ysgol Bro Pedr - Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 7, 8 a 9 – 2il.



Alwena Owen, Llanllwni [Ysgol Bro Teifi] - Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac Iau 1af; Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 1af; Unawd Bl. 5 a 6 2il.



Côr Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llambled 2il.



Sara Elan Jones, Ysgol Bro Pedr - Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed 3ydd; Cyflwyno Alaw Werin, 3ydd; Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed 2il; Monolog 2il.



Danielle Murray, Ysgol Bro Pedr - Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 [D] – 2il.



Lowri Elen Jones, Aelwyd Llambled – Unawd allan o Sioe Gerdd 1af a'r Alaw Werin 19 – 25 oed 1af.

Llangybi a Betws

Ysgol Y Dderi




Yn dilyn eu llwyddiant yn rownd cylch Pêl-rwyd Llanbed aeth y merched i Langrannog i roi cynnig ar dwnamaint pêl rwyd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion. Cafwyd cystadlu brwd a phawb yn rhoi o'u gorau glas. Ysgol Aberaeron ddaeth i'r brig a dymunwn bob hwyl iddynt yn y rownd genedlaethol.



Cafwyd dechreuad cyffrous i thema "I fyny fry!" blwyddyn 3 a 4 gydag arddangosfa adar ysglyfaethus yn neuadd yr ysgol. Roedd yr eryrod a'r tylluanod yn ddigon o ryfeddod a chafwyd y cyfle gan rai i ddal ambell aderyn hefyd. Dysgwyd nifer o ffeithiau diddorol iawn ac roedd yn brofiad gwych.

I ddathlu Diwrnod Mathemateg y Byd gosodwyd heriau rhifyddol i bob dosbarth ar draws yr ysgol. Cyflwynwyd tystysgrifau am y tywel â'r arwynebedd mwyaf, y genhinen

hiraf, y llyfr trymaf, y cynhwysydd dŵr mwyaf a'r ffrwyth â'r cylchedd mwyaf.



Ar ddiwrnod y llyfr bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn casglu ffeithiau am Lyfr Coch Hergest, Llyfr Gwyn Rhydderch a Llyfr Du Caerfyrddin a'u cyflwyno ar ffurf posteri a chartŵns. Joio!

Cafwyd llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn i bawb am bob ymdrech. Unawd Blwyddyn 2 ac Iau, 2il Tomi Jac, 3ydd Delun Aur; Unawd Blwyddyn 5 a 6, 1af Betrys Llwyd Dafydd, 3ydd Beca Ebenezer; Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 5 a 6, 1af Betrys Llwyd Dafydd, 3ydd Beca Ebenezer; Llefaru Blwyddyn 5 a 6, 1af Betrys Llwyd Dafydd, 2il Beca Ebenezer; Alaw werin Blwyddyn 6 ac Iau, 2il Betrys Llwyd Dafydd; Ymgom Blwyddyn 6 ac Iau, 1af Parti Dion, 2il Parti Bleddyn; Côr Ysgolion hyd at 150, 1af; Parti Unsain Ysgolion dros 50, 1af.

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn brysur yn cynhyrchu gwaith graenus i godi ymwybyddiaeth Pythefnos Masnach Deg. Cafwyd posteri bendigedig a nifer o gacennau blasus tu hwnt.

Cynhaliwyd noson o Gawl a Chên yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar i rannu llwyddiant yr Eisteddfod ysgol a'r Eisteddfod gylch. Bu'r staff yn

paratoi a gweini'r bwyd blasus a bu'r plantos yn diddanu. Diolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am ddod i'n cefnogi ac am godi swm anrhydeddus o arian tuag at ein coffrau.

Teithiodd blwyddyn 1 a 2 i Theatr y Mwldan yn Aberteifi i wyllo cynhyrchiad Pinocchio gan Gwmni Theatr La Baldufa o Gatalonia. Dyma beth oedd perfformiad hudolus o'r chwedl adnabyddus o'r Eidal.



Llwyddodd Zoe, Bleddyn, Betrys a Sara i ennill Cwis Dim Clem a drefnwyd gan Menter Ceredigion yn ddiweddar. Da iawn chi a phob lwc yn y rownd nesaf.

Diolch yn fawr iawn i dad Jasmine am ddod i'r ysgol i sôn am ei waith fel aelod o weithlu yr RAF. "I fyny fry!" yw thema'r dosbarth ac roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu am awyrennau ac yn holi cwestiynau treiddgar iawn. Arbennig.

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Fawrth 1af yn 'Granny's Kitchen' yn Llambod lle yr oedd pryd o gawl a phwddin wedi ei baratoi i'r gangen.

Enillwyd y raffl gan Mair Spate, Sally Davies, Gwen Lewis, Jean Baker, Helen French, Ethel McLaughlin, Peter a Tegwyn Cornelius, Janet Farrow, Alunda Jones, Maisie Morgans, Sue Wellings a Wendy Davies.

Talwyd y pleidlais o ddiolch gan Maisie Morgans. Y Trip Dirgel fydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 5ed. Enwau i'r trefnydd ar unwaith os gwelwch yn dda.

Merched y Wawr Y Dderi

Dathlwyd Gŵyl Ddewi fel arfer pan yr ymwelwyd â'r Pantri lle y cawsom wledd fendigedig o gawl blasus a phwddin hyfryd mewn cwmni diddan ac awyrgylch groesawgar iawn. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am y bwyd rhagorol a'r croeso i Delyth a'i chriw.

Rhoddwyd y raffl gan Ann Davies, Gwyneth Evans, Gwyneth Jones a Mary Jones. Enillwyd hwy gan Mary Jones, Mair Spate, Mair Morgan a Delyth Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Dderi pryd y croesawir Cangen Bronant i ymuno â'r gangen leol ar Ebrill 10fed pryd y gwelir gwaith Bethan Phillips.

Eisteddfod Rhanbarth




Parti Merched Bl. 7, 8 a 9 – Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [D] – Ysgol Bro Pedr 2il.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

C.Ff.I. Dyffryn Cothi



Ar nos Iau y 7fed o Fawrth, cynhaliwyd Swper Cawl blynyddol C.Ff.I Dyffryn Cothi yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint. Dyma gyfle i'r clwb ddiolch i'r sawl bu'n ein cynorthwyo dros y flwyddyn a fu, a chyfle hefyd i gyflwyno sicciau i'n elusennau. Eleni, cyflwynwyd sicc o £250 i Meningitis Now (ein elusen ni llynedd) a sicc arall o £250 i Ward Pembroke, Ysbyty Treforys (ein elusen ni eleni).

Edrychwn ymlaen at berfformio ein Hanner Awr o Adloniant, Dathlu Canmlwyddiant Tesco, am y tro olaf yn ein cyngerdd blynyddol ar y 4ydd o Ebrill am 8yh yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint. Daethom yn Zail yng Nghystadleuaeth Adloniant C.Ff.I Sir Gaerfyrddin ym mis Chwefror. Cyflwynwyd gwobr Perfformwraig Orau'r gystadleuaeth i Carys Haf a rhannwyd gwobr Perfformiwr Gorau'r gystadleuaeth rhwng Eirwyn Richards a Deian Thomas. Estynnwn groeso cynnes i chi gyd i ddathliad canmlwyddiant Tesco ar y 4ydd o Ebrill!

C.Ff.I. Ceredigion

Gwanwyn prysur i'r mudiad

Mae'r CFfI yn hen law ar gynnal bywyd prysur, a dyna'n union yr hyn sydd wedi digwydd dros yr ychydig wythnosau diwethaf.

Ar ôl paratoi'n ddiwyd, camodd 15 o glybiau ar lwyfan Theatr Felinfach yn ystod wythnos Hanner Awr o Adloniant y Sir! Am wledd oedd gweld perfformiadau'r clybiau wrth i bobl ifanc y sir ddiddanu a difyrru'r gynulleidfa. Delme Harries o Sir Benfro oedd beirniad y gystadleuaeth, ac ar ddiwedd yr wythnos, dyfarnwyd Clwb Felinfach yn fuddugol am eu perfformiad, sef 'Trip Ysgol Sul'.



Aethant yn eu blaenau wedi hynny i gystadlu ar lefel Cymru ar 9 Mawrth 2019 yn Theatr Hafren y Drenwydd, gan gyflawni'r un gamp yno a dod yn

bencampwyr Hanner Awr o Adloniant Cymru! Arbennig wir!

Dyma gostrelu gweddill canlyniadau wythnos adloniant CFfI Ceredigion: Actor Gorau 16 oed neu iau - 1. Gwion Owen, Llanddewi Brefi; 2. Steffan Jac Jones, Talybont; 3. Osian James, Trisant.

Actores Orau 16 oed neu iau - 1. Lois Medi Jones, Talybont; 2. Megan Williams, Lledrod; 3. Lisa Evans, Bro'r Dderi.

Actor Gorau - 1. Gethin Hughes, Llanddeiniol; 2. Dafydd James, Troedraur; 3. Dewi Jenkins, Talybont.

Actores Orau - 1. Alaw Mair Jones, Felinfach; 2. Beca Williams, Talybont; 3. Delor Rees, Penparc.

Cynhyrchydd Gorau - 1. Llanddewi Brefi; 2. Felinfach; 3. Talybont.

Sgript Orau - 1. Felinfach; 2. Llanddewi Brefi; 3. Talybont a Trisant

Perfformiad Technegol Gorau - 1. Pontsian

Clwb Buddugol - 1. Felinfach; 2. Llanddewi Brefi; 3. Talybont.

Swyddogion newydd



Yn ystod cyngerdd buddugwyr adloniant CFfI Ceredigion yn Theatr Felin-fach ar 4 Mawrth 2019, cyhoeddwyd pwy oedd Aelod Hŷn ac Aelod Iau newydd y flwyddyn. Llongyfarchiadau i Megan Lewis o Glwb Ffermwyr Ifanc Trisant ar gael ei hethol yn Aelod Hŷn y Flwyddyn, ac i Alaw Fflur Jones, o Glwb Ffermwyr Ifanc Felin-fach, ar gael ei hethol yn Aelod Iau y Flwyddyn. Aeth Alaw yn ei blaen i gipio'r teitl ar lefel Cymru hefyd yn Theatr Hafren y Drenwydd ar 9 Mawrth 2019. Llongyfarchiadau gwresog iddi, a phob dymuniad da pan ddaw'r adeg i gynrychioli Cymru ar lefel Ffederasiwn Cenedlaethol y mudiad!

Yn fuan wedi hynny, cynhaliwyd cyfeliadau i ethol Dirprwyon, Ffermwr Ifanc a Brenhines newydd i'r Sir. Cyhoeddwyd y canlyniadau yn ystod noson hwyliog yng Ngwesty'r Talbot yn Nhregaron ar 15 Mawrth 2019.

Llongyfarchiadau mawr iawn i Elen Lloyd-Jones, o Glwb Ffermwyr Ifanc Pontsian, ar gael ei hethol yn Frenhines y Sir ac i Endaf Griffiths o'r un clwb am gael ei ethol yn Ffermwr Ifanc y Sir!

Etholwyd Mared Lloyd Jones, CFfI Llanddewi Brefi; John Jenkins, CFfI Lledrod; Carys Mair Jones, CFfI Bro'r Dderi; a Rhodri Griffiths, CFfI Llangwyrfon yn Ddirprwyon ar gyfer y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch, a phob hwyl â dyletswyddau'r flwyddyn.

Cynhaliwyd Cymanfa'r Frenhines a'r Ffermwr Ifanc eleni yng Nghapel Bethesda, Llanddewi Brefi dan ofal swyddogion y Sir 2018-2019. Diolch i bawb am drefnu a braf oedd gweld aelodau'r mudiad yn arwain y canu.

Mae yna gryn edrych ymlaen at sialens Cadeirydd y Sir eleni, sef Caryl Haf. Yr her fydd cerdded/rhedeg, rhwyfo a seiclo cyfanswm o 23 milltir, neu ran o hynny, gan godi arian i elusen, CFfI Ceredigion, a'r clybiau unigol. Bydd pob cymal yn dechrau ac yn gorffen yn Neuadd Llanddewi Brefi, ac estynnir croeso i aelodau a ffrindiau'r mudiad ymuno â'r criw neu ddod i gefnogi ddydd Sadwrn, 6 Ebrill 2019. Mae'n argoeli i fod yn ddiwrnod da.

Dyddiadau i'ch Dyddiadur

6 Ebrill Her y Cadeirydd: Treiathlon

8 Ebrill Cwis Iau y Sir

17 Ebrill Pwyllgorau'r Sir

21 Ebrill Diwrnod Hwylus Sul y Pasg (dros 18 oed yn unig)

27 Ebrill Diwrnod Maes CFfI Cymru, Sir Benfro

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____

Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

7			1		9	5
	3	1	8		7	
5			2			
		4		8	9	1
8		2	9		6	
			7			9
		9		4	3	2
6	2		3			8

Swdocw Mawrth

Llongyfarchiadau i:

Bethan Thomas,

Pontsian a diolch

i bawb arall am

gystadlu: Avril Williams,

Cwmann; Megan

Dafydd, Cwmann;

Eurwyn Davies,

Llanybydder; John

Bevan, Felinfach;

Glenys Davies,

Llanybydder; Richard Evans, Olmarch;

Bethan Williams, Llanybydder a Dai Jones, Alltlyblaca.

7	4	6	5	3	9	8	1	2
8	3	9	2	1	6	7	5	4
2	1	5	7	4	8	9	6	3
1	6	2	4	9	7	3	8	5
9	7	3	8	2	5	1	4	6
4	5	8	3	6	1	2	7	9
5	9	4	1	8	3	6	2	7
6	2	1	9	7	4	5	3	8
3	8	7	6	5	2	4	9	1

Llanbedr Pont Steffan

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod Gŵyl Dewi Cylch Cinio Llanbedr ar y 7fed o Fawrth yng Nghlwb Rygbi Llanbedr dan lywyddiaeth Mr Eifion Williams ac yn ôl yr arfer fe groesawyd gwagedd a chyfeillion yr aelodau i'r cyfarfod olaf hwn o'r tymor. Braf oedd gweld dros hanner cant yn bresennol. Eleni eto fe ddathlwyd yr ŵyl trwy gerddoriaeth a chân. Y gwsteion eleni oedd Côr Seingar ac wedi mwynhau'r wledd arbennig o luniaeth a ddarparwyd, cafwyd gwledd o adloniant i ddilyn.



Côr cymysg ifanc o Gaerfyrddin yw Côr Seingar ac ers iddo gael ei ffurfio yn 2004 mae ei aelodaeth wedi tyfu o 16 i 50 a'i enwogrwydd hefyd wedi tyfu trwy lwyddiant eisteddfodol a chyhoeddi CD. Y mae cysylltiad Seingar a Llanbedr a'r Cylch Cinio ei hun yn un cryf iawn gan mai Heulyn, un o feibion y diweddar Arthur Roderick, sy'n camu o'u plith i gyflwyno a diddanu a'i gymar Nicki yw eu harweinydd. Gydag Elin Mair Rees yn cyfeilio cafwyd rhaglen gyfoes ac amrywiol ganddynt a oedd yn addas iawn i ddathliad Gŵyl Dewi gan ddechrau gyda 'Cod i ddeffro' (Let the river run o waith Carly Simon) a 'Bydded i' (cyfieithiad Meredudd Jones o May it be gan Enya o drac sain y ffilm 'Lord of the Rings'). Cafwyd tipyn o hiwmor gan Heulyn wrth iddo gyflwyno pedwar llais y côr ac yn wir yr oedd y pedwar llais yn gryf a chytbwys trwy gydol y noson gan yr 11 soprano ac alto a'r 9 o denoriaid a baswyr oedd yn ffurfio'r côr ar y noson. Aethant ymlaen i gyflwyno 'Anfonaf angel' (alaw gan Robat Arwyn i eiriau gan Hywel Gwynfryn) a 'Hedfan fry' (cyfieithiad Tudur Dylan Jones o Defying gravity gan Idina Menzel a Kristin Chenoweth o'r sioe gerdd 'Wicked'). Yna cafwyd dwy unawd soprano hyfryd gan Carys Richards sef 'O nefol addfwyn oen' i alaw Robat Arwyn a 'Cymru Fach' (geiriau Elfed ac alaw David Richards) cyn i'r côr ysgafnhau'r arlwy gyda 'Yn yr hwyl' (In the mood - cân o waith Joe Garland a gysylltir â Glenn Miller.) Dilynwyd honno gan 'Rwy'n dy weld yn sefyll' o'r sioe gerdd 'Ann' o waith Penri Roberts, Derec Williams a Linda Gittins cyn gorffen gyda 'O Gymru' (alaw Rhys Jones i eiriau Leslie Harris, sef tad Mrs Ann Morgan, Maer Llanbedr eleni.) Mynnodd y gynulleidfa gael encôr a gwnaethant ymdrech ardderchog trwy gyflwyno medli allan o'r sioe gerdd Lion King (caneuon gan Elton John a Tim Rice) yn cynnwys unawdau gan Meredudd Jones a Mair Jones.

Diolchwyd i Gôr Seingar gan y Parchedig Goronwy Evans am gyngerdd a fwynhawyd gan bawb gan sôn, gyda Mrs Roderick yn eistedd gerllaw, am ei adnabyddiaeth hir o'r teulu Roderick yn Llanbedr.

Yn ddiweddsglo i'r tymor fe drosglwyddodd Mr Eifion Williams lywyddiaeth y Cylch i Mr Haydn Richards gan ddiolch i'w gyd swyddogion a chan groesawu Mr John Davies, Tynloff, yn Is-lywydd. Diolchodd hefyd i Gegin Gwenog am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Aeth y llywydd newydd ymlaen i ddiolch i Mr Williams ac i'w longyfarch ar dymor llwyddiannus. Swyddogion eraill y Cylch am y tymor nesaf fydd y bonheddwyr Tom James (Trysorydd) Tim Jones (Ysgrifennydd Cyffredinol,) Twynog Davies (Ysgrifennydd Siaradwyr) a Richard Marks (Swyddog y Wasg). Fe fydd y Cylch yn ymgynnull eto yn yr Hydref pan groesawir unrhyw aelodau newydd fydd yn awyddus i ymuno.

Goronwy yn cael ei anrhydeddu

Llongyfarchiadau i'r Parch Goronwy Evans ar gael ei anrhydeddu yng ngwobrau Uchel Siryf Dyfed eleni. Mewn seremoni arbennig yn Arberth ar ddydd Sadwrn, y 23ain o Fawrth, roedd Goronwy yn un o saith o bobl - ar draws hen sir Dyfed - i dderbyn gwobr fel cydnabyddiaeth am eu cyfraniadau sylweddol a gwerthfawr i'w cymunedau. Gyda'i wraig, Beti, mae cyn-weinidog Capel Brondeifi wedi cydlynu ymdrechion yn lleol i godi dros filiwn o bunnau i elusen

Plant Mewn Angen y BBC, dros gyfnod o 35 mlynedd. Bu hefyd yn Gadeirydd Cangen Elusen Ymchwil Cancr Llanbedr a Llanybydder am dros 20 mlynedd. Yn ogystal, bu'n Ysgrifennydd Cyffredinol Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen am 35 mlynedd, a'n Ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol pan ddaeth hi i Lanbedr yn 1984. Fe wnaeth ymddeol o'r weinidogaeth yn 2016, ar ôl dros hanner canrif o wasanaeth.



Daeth tymor arall i ben i'r Cylch Cinio gyda chinio Dathlu Gŵyl Ddewi ac yn amser i Eifion Williams basio Cadwyn y Llywydd ymlaen i Lywydd y tymor nesaf sef Haydn Richards. Yn y llun mae (o'r chwith) John Davies, Is-lywydd; Richard Marks, Gohebydd y Wasg; Haydn Richards, Llywydd; Twynog Davies, Ysgrifennydd Siaradwyr; Eifion Williams, Cyn-lywydd; Tim Jones, Ysgrifennydd a Tom James, Trysorydd.

Bedyddwyr

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ar Sul 19 Mai ym Methel Silian am 4 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at wasanaeth ein arweinydd gwadd sef Emlyn Davies o Lanybydder a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Y Llywydd eleni yw Elfyn Davies, Bethel Cwm Pedol. Bydd lluniaeth yn dilyn y Gymanfa ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o'r aelodau ynghyd ar Fawrth 12 i fwynhau noson yng ngofal Geinor Medi.

Bu pawb yn cymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol a chael hwyl fawr wrth wneud hynny. Datgelwyd ambell i gyfrinach wrth i bob aelod siarad am funud yn ddi dor ar bynciau yn cynnwys, fy hoff opera sebon, pêl-droed a'r ysgol. Diddorol iawn oedd gwrandio arnynt. Diolchodd Iestyn i Geinor Medi am baratoi ar ein cyfer ac am gyfarfod yn llawn sbri. Daw'r tymor i ben gyda noson yng ngofal Elin y Garn.

Dymunodd Janet yn dda i'r grŵp llefaru a'r unigolion sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Eisteddfod yr Urdd

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd cylch Llambled yn Ysgol Bro Pedr ar 14 Mawrth a bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn. Y beirniaid eleni oedd Kim Lloyd Jones a Geraint Thomas (Cerdd), Geraint Hughes (Llefaru) a Ffion Medi Lewis-Hughes (Theatr) a'r cyfeilyddion oedd Eirian Jones a Lois Williams. Bu cystadlu niferus a safonol iawn yn y rhagbrofion yn y bore. Llywydd yr

eisteddfod eleni oedd Nans Davies a diolchir iddi am ei geiriau pwrpasol a'i chyfraniad anrhydeddus.

Ar ddiwedd y cystadlu talodd Llinos deyrnged uchel i Charlotte o Ysgol Llanllwni am ei pharatoadau trylwyr ac i bawb yn gysylltiedig â'r Ysgol am eu cymorth mawr yn ystod y dydd gyda'r stiwardio a'r bwyd. Talodd werthfawrogiad hefyd i Bennaeth Bro Pedr am bob cydweithrediad, i Weinidog a swyddogion Brondeifi am ddefnydd o'r capel a'r festri ar gyfer y rhagbrofion eleni eto, i'r cynorthwywyr wrth y bwrdd ac i fechgyn y sain. Diolchodd hefyd i arweinyddion y llwyfan a'r rhagbrofion heb anghofio'r beirniaid a'r cyfeilyddion am eu gwasanaeth clodwiw.

Merched y Wawr

Y mis yma, yn lle ein arferiad o gwrdd ar nos Lun, cafwyd noson i ddathlu dydd Gŵyl Ddewi ar nos Fercher a hynny yn y Pantri gyda Delyth. Estynnodd Elin groeso cynnes i ni a phleser oedd cael cwmni Irene ac Eiri yn ôl wedi rhai misoedd i ffwrdd.

Croesawodd Elin ein gwestion gwadd ieuanc sef Betrys a Gruffydd Llwyd Dafydd o Abermeurig, hwythau wedi dod i'n diddanu trwy ganu ac adrodd. Cawsom wledd yn gwrandio arnynt gyda phawb yn gwerthfawrogi talent ifanc a'u parodrwydd i ddod atom a hwythau mor brysur. Hefyd, hyfryd oedd gwrandio ar eiriau eu mam yn diolch i ni am y gwahoddiad i roi cyfle iddynt i ddefnyddio eu talentau a thrwy hynny yn rhoi hyder a phrofiad iddynt.

Cyn dechrau bwyta roedd rhai dyddiadau pwysig i'w nodi. Dyddiad trip Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion yw Medi 28ain ond heb benderfynu eto ble i fynd gyda manylion i ddod. Mae gemau

Llanbedr Pont Steffan

dominos a dau ddwrn i'w cynnal yn Neuadd Felinfach ar Mawrth 28ain, a dartiau yn Nhafarn y Bont, Bronant ar Ebrill 8fed. Ar nos Iau Ebrill 11eg mae Chwist a Sgrabl yn Neuadd Felinfach.

Erbyn hyn roedd pawb yn barod i swper. Roedd y byrddau wedi eu haddurno yn hyfryd gyda blodau cennin pedr a bara menyn a chaws wedi eu trefnu yn daclus ar lechen. Cawsom gawl blasus dros ben ac i ddilyn, letys, llysiau, bacwn a jam chili gyda dewis o crymbl afal neu fwyar duon neu reis i bwdin. Yna te neu goffi gyda bara brith a phice bach i offen.

Noson hwylus, bwyd arbennig a digon o gymdeithasu gyda Gwyneth yn gwneud y diolchiadau i Betrys a Gruffydd ac i Delyth am y swper.

Ar Ebrill 8fed byddwn yn dysgu am ailgylchu ein gwastraff trwy ymweld â chanolfan LAS yng nghwmni Tina Morris.

Cymdeithas Hanes Llambod

Cynhaliwyd y ddarlith Gymraeg flynyddol yng nghyfarfod Mis Mawrth, â Sian Jones yn cyfieithu i'r di-Gymraeg. Daeth cynulleidfala luosog i Hen Neuadd y Brifysgol i glywed Mr Lloyd Jones, Ystrad Dewi yn rhoi hanes ei gynefin, sef Llanio a Phont Llanio, a'r bwrlwm fu yno ar un adeg yn ymwneud â'r fusnes menyn a llaeth.

Rhodddwyd hanes Llanio o gyfnod y Rhufeiniaid yn sefydlu campws yno, ac yna'r torfeydd yn dod i'r ardal yn y chweched ganrif adeg Dewi Sant. Neidio ymlaen wedyn i ddyfodiad y rheilffordd ym 1866, yn cysylltu'r ardal ag Aberystwyth â Chaerfyrddin ac ymhellach. Codwyd gorsaf rheilffordd yno a thŷ i'r Gorsaf-feistr, hyn yn hwyluso cludiant i fewn ac allan o'r ardal.

Ffatri fenyn a ddatblygodd yno'n gyntaf, yn cyflogi 8-10 o weithwyr i wahanu'r hufen oddi wrth y llaeth, ac yna creu'r menyn. Dros gyfnod o amser, perswadiwyd ffermwyr i gynhyrchu'r menyn yn eu llaethdai eu hunain, a'i werthu i'r ffatri.

Crëwyd y Bwrdd Marchnata Llaeth yn yr 1930au, a chodwyd ffatri laeth ym Mont Llanio ym 1937, gan agor yn swyddogol y flwyddyn ganlynol. Casglwyd llaeth dros ardal eang Gorllewin Cymru, a chyflogwyd dros 120 yno, gan gynnwys yrwyr i 35 o lorïau, yn cludo'r llaeth mewn churns, cyn ei ddosbarthu ymhellach yn y tanceri ar y rheilffordd. Sychwyd llaeth i wneud llaeth powdwr yn ogystal.

Clywyd am drydan yn dod i'r ardal, ac mai fferm Gogoyan oedd y cyntaf i fanteisio ar hwnnw. Sefydlwyd Clwb Ffermwyr Ifainc Llanddewi Brefi ym 1941, hwnnw'n rhoi hyder i feibion a merched yr ardal i sefyll o flaen cynulleidfala, a magu sgiliau amrywiol. Y cyfan yn

rhan o gymdogaeth weithgar, egnïol a brwdfrydig. Rhodddwyd ambell i stori am gymeriadau'r ardal hefyd.

Caewyd y rheilffordd a'r Ffatri Laeth ym 1970, a throsglwyddwyd y cludiant llaeth, a rhai o'r gweithwyr i Ffatri Laeth Felinfach.

Diolchwyd yn gynnes i Mr Lloyd Jones am noson ddiddorol tu hwnt gan y Cadeirydd, a derbyniodd gymeradwyaeth wresog gan y gwrandawyr. Diolchwyd hefyd i Sian am ei gwasanaeth cyfieithu.

Bydd cyfarfod Mis Ebrill, nos Fawrth yr 16eg o'r mis, pan fydd Mr Simon Evans, Cwrtnewydd yn rhoi ail hanner Hanes Plwyf Llanwenog. Croeso cynnes i bawb. £2 i ymwelwyr.

Diolch

Dan Jones, Penarth,
Heol y Bryn, Llambod
(Dan Waunlluest)

Dymuna Irene, Eileen a Linda a'u teuluoedd, ddiolch i berthnasau, ffrindiau a chymdigion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tad-cu, a hen dad-cu annwyl iawn. Diolch yn ddiffuant i'r Parchedig Aled Jones am gynnal y gwasanaeth, hefyd i'r Parchedig Kevin Davies am gyflwyno'r deyrnged, Mrs Meinir Jones yr organyddes, a Cenfll Reeves a'i Fab am y trefniadau urddasol. Diolch i'r timau Adnoddau Cymunedol a Nyrsgys Cymunedol am eu gofal. Mawr yw ein diolch am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Dan, tuag at Marie Curie, a Hosbis yn y Cartref, cyfanswm o £1,670. Rhannwyd yr arian yn gyfartal rhwng y ddwy elusen.

Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant i ran Carys Mair Jones, Undergrove ar gael ei dewis yn un o ddirprwyon C.F.F.I. Ceredigion am y flwyddyn 2019/20. Pob dymuniad da i ti.

Taith Gerdded Nodedig yn Nghoedwig Longwood i godi arian i Bwyllgor Apêl Llanbed i Eisteddfod Genedlaethol 2020

Dewch yn llunio ymuno â ni a mwynhau taith gerdded i bob oed yng Nghoedwig Longwood ar ddydd Sadwrn, Ebrill 27 yn dechrau am 1 o'r gloch wrth y clwb rygbi. Bydd Debbie White ac Anwen Evans o gerddwyr Tregaron yn arwain taith o tua 3 milltir a bydd cliwiau wedi'u gosod i'r plant chwilio amdanynt. Ceir ffurflenni noddig gan Carys Lloyd Jones, Carys Davies neu Ann Morgan a hefyd yn Ysgol Bro Pedr a Charreg Hirfaen. Bydd gwobr i'r plentyn sy'n casglu'r nawdd mwyaf! Mae croeso i bawb ac os heb gasglu nawdd cewch dalu ar y dydd - £4 i oedolion a £2 i blant.

Amgueddfa Llambod

Bydd yr Amgueddfa yn agor am dymor 2019 Dydd Mawrth, Ebrill 9ed. Gwelir casgliadau newydd unwaith eto a fydd, gobeithio, yn ennyn diddordeb y gymdogaeth yn ogystal â diddordeb ymwelwyr o bell ac agos. Dim esgus i ddweud eich wedi bod yno unwaith o'r blaen!

Mae'n arferol i gasglu hanes un o blwyfi'r ardal, a thro Llanwenog yw hi eleni.



Bydd yno arddangosfa ar y gwaith sydd yn mynd ymlaen yn Ystrad Fflur; Hanes y Ffliw Sbaenaidd a laddodd miloedd ym 1918 wedi diwedd y Rhyfel Mawr; hen feddyginiaethau; creiriau ac hanes ffatri boteli'r Old Quarry; llawer o lestri a gwydr sydd wedi ei gyflwyno i'r Amgueddfa, a chasgliad o ddillad (fel sy'n y llun), sydd wedi eu cyflwyno gan Mr Jim Lloyd, Treforus (Llain, Gorsgoch gynt) er cof am ei chwaer, Sulwen, a'i frawd-yng-nghyfraith Robert Thomas.

Gwelodd Jim y dillad - oedd â chysylltiad ag ardal Cellan - yn cael eu gwerthu, a phenderfynodd eu prynu a'u cyflwyno i'r Amgueddfa. Mae yna ddwy sger, dwy ffedog, dwy siôl a het uchel yn perthyn i'r casgliad, ac yn yr het mae yna label 'David Lloyd, Dolgwm House'. Gwnaed tipyn o waith ymchwil, ac mae hanes perchennog y dillad a siop David Lloyd Dolgwm i'w weld yn yr Amgueddfa. Galwch i mewn i'w gweld, ac i gefnogi'r ymdrech sy'n cael ei wneud i gadw a chyflwyno hanes ein hardal. Amserau agor: Dydd Mawrth a Dydd Iau 10-4; Dydd Gwener a Sadwrn 11-2. Croeso cynnes i bawb.

Urdd y Benywod Brondeifi

Cafwyd noson arbennig o hwylus gan Urdd y Benywod ar Chwefror 14eg o dan lywyddiaeth y bardd o Ffostrasol, Dai Rhys Davies. Fe'n diddanwyd wrth wrando arno'n adrodd detholiad o'i waith ei hun - i gyd yn bwrpasol a chelfydd ac yn llawn o'i hiwmor arferol.

Roedd aelodau'r Urdd yn ogystal ag aelodau o Gymdeithas Bethel, Parcyrrhos wedi bod yn llunio brawddeg ac yn cwblhau limrig a osodwyd iddynt gan y bardd. Dyfarnwyd brawddeg ein llywydd, Maureen, yn fuddugol, a daeth Eryl i'r brig gyda'i limrig hi. Enillwyd y gwobrau raffl gan Mary Davies, Glesni Thomas a Pat Davies.

Yn goron ar y cyfan cawsom wledd arbennig o flasus a baratowyd gan Delyth.

Cafwyd noson arbennig o ddiddorol gan Urdd y Benywod ar Fawrth 14eg pan gawsom y pleser o fynd i siop ddillad Lambis a chael gwledd i'r llygaid wrth weld Heather a Helen yn modelu rhai o'r gwisgoedd hardd a lliwgar sydd yn rhan o stoc y gwanwyn. Bu Charlotte yn eu cynorthwyo'n fedrus fel bod

y cyfan yn rhedeg yn hwylus. Tra'r oeddem yn eistedd yn gysurus cawsom wydraid bach a siocled i'n croesawu. Dyna beth oedd cael ein sbwylio!

Roedd y cyfan wedi ei drefnu'n ofalus ac roedd y ddwy fodel yn arddangos y dillad ar eu gorau gydag ategolion oedd yn gweddu i'r dim. Teimlai pob un ohonom fod hon yn un o nosweithiau gorau'r tymor. Yn goron ar y cyfan, cawsom gwis dyfeisgar a manwl ar bethau oedd yn ymwneud â'r byd ffasiwn. Elsi gafodd y wobwr am gael y mwyaf o atebion cywir a hi hefyd wnaeth ddiolch i Heather, Helen a Charlotte am noson o fwynhad llwyr. Enillwyd y raffl gan Maureen a chawsom oll anrheg fach ddefnyddiol i fynd adre gyda ni. Felly dyna beth oedd criw hapus ar ddiwedd y noson.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar Ebrill 11eg pan fyddwn yn ethol swyddogion ac yn trefnu'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gobeithiwn weld pob aelod yn dod â'u syniadau er mwyn i ni gael cystal rhaglen flwyddyn nesaf â'r un a gawsom eleni.

Llanbedr Pont Steffan

Noson Gŵyl Dewi



Wrth derfynu'r gweithgareddau ar nos Iau Mawrth 14, dywedodd y Llywydd Huw Jenkins mae dyma'r noson orau ers cof wrth i ni ddathlu Gŵyl ein nawddsant. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Gareth Richards, Goedwig fod yn gyfrifol am y cawl a'r holl ddanteithion i ddilyn; mwynhawyd pryd ardderchog wedi ei baratoi a'i weini mewn ffordd mor gyfeillgar a phroffesiynol yn ôl ei arfer.

Côr Merched Corisma oedd yn gyfrifol am yr adloniant i ddilyn o dan arweinyddiaeth Rhian Evans gyda Lois Williams yn cyfeilio. Yr amryddawn Lena Daniel gyflwynodd eitemau'r Côr a chafwyd orig hyfryd o ganu corawl yn eu cwmni. Crëwyd sain gynnes gyfoethog ac yr oedd y dewis yn ddoeth ond heriol. Dewiswyd nifer o ddarnau gan gyfansoddwyr cyfoes gan gynnwys Robat Arwyn, John Rutter, Eirian Jones gyda'i threfniant o gerdd enwog T Llew Jones, Cwm Alltcafan. Braf oedd clywed y merched yn mentro i fyd y canu gospel gyda'u dehongliad hyfryd o 'Rock of my Soul'. Roedd y geiriau sydd yn ein hatgoffa o bwysigrwydd ein hiaith, crefydd a'n diwylliant i gerddoriaeth Eric Jones, Ffosfelen, yn ddiweddglo priodol i noson gofiadwy.

Diolchodd Huw Jenkins i Swyddogion y Gymdeithas ac i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd at lwyddiant y noson a'r tymor yn gyffredinol. Edrychwn ymlaen yn awr i drip yr Haf!

Taith Gerdded Noddedig

COEDWIG LONGWOOD

Dydd Sadwrn
27 Ebrill 2019

Cychwyn am 1pm wrth y Clwb Rygbi

3 milltir

Arweinwyr: Debbie White & Bethan Evans

Flurflenni noddi gan yr ysgolion neu Ann Morgan 422413
Gwobr i'r plentyn a gasglodd fwy
Dewch i ymuno (heb nawdd) am £4 i oedolion, £2 i blant

Trefnir gan Bwyllgor Cronfa Llanbedr
ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2020



£17.50 yw pris
Tanysgrifiad Blwyddyn
Papur Bro Clonc.
Beth am ei brynu fel
anrheg?

Cysylltwch â
Mary Davies,
Ysgrifenyddes Clonc
ysgrifennydd@clonc.co.uk



Cyflwynwyd sic o £400ar ran 'Lampeter Farm Women's Club' gan Mrs Heini Thomas (canol) i Mrs Ann Davies a Jennie Bracher o gangen Llanybydder a Llambod Sefydliad y Galon. Codwyd yr arian er cof am fam Mrs Thomas, sef Mrs Margaret Jones, a oedd yn aelod ffyddlon o glwb y menywod ac o gangen Llanybydder/Llambod Sefydliad y Galon. Gyda nhw y mae swyddogion y clwb.

Cydymdeimlo

Yn dawel yn ei chartref Awel-dêg, Heol Cambrian bu farw Beryl Davies trannoeth ei phen-blwydd yn 91oed. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda David, Helen a'u teuluoedd yn eu galar o golli mam a mam-gu annwyl iawn. Bu'r angladd yn hollol breifat yn ôl ei dymuniad a daearwyd ei gweddillion ym mynwent Soar, Llambod.

Banc Bwyd Llambod

Ar gael Dydd Llun, Dydd Mercher a Dydd Gwener 9-5, a DYDD IAU 18fed a DYDD MAWRTH 23ain ar gyfer PENWYTHNOS Y PASG.

Gwahoddir cyfraniadau o fwyd sych neu tuniau (sydd o fewn dyddiad) e.e. pasta a reis; grawnfwyd brecwast; te a choffi; jam a marmaled; cig a physgod tun; prydiau mewn tun fel stiwd, cyri a.y.b; cawl; llysiau a ffrwythau tun, pwddin reis a chwstard mewn tun. Gellir gadael rhoddion yn y capeli/eglwys lleol, yn Yr Hedyn Mwstard, a Co-op Llambod.

Adran ac Aelwyd Llambod



Rhai o aelodau Adran yr Urdd Llambod yn argraffu lluniau – diolch i Anita Evans am ddod atom



Adran ac Aelwyd Llambod yn gorymdeithio ym Mharêd Gŵyl Ddewi Tref Llambod

Enw: Gethin Davies

Oed: 21

Pentref: Esgairdawe

Gwaith: Linesman i Western Power Distribution

Partner: Mari Lewis

Teulu: Mam, Dad a fy mrawd Owen

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Gwneud den yn y cae gwair allan o bêls yn yr haf gyda Owen a'n cefnitherod.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Mr Bean

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Gwisgo lan fel hwrdd mewn cystadleuaeth gyda CFFI Cwmann.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Ffarmwr

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Gyrru motor beic cwad rownd a rownd cae gwair nes bod e'n fflat jyst cyn i dad ddod i'r cae i'w dorri!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Dyw'r lleoliad ddim yn bwysig jyst fy mod i gyda theulu a ffrindiau.

Beth yw dy lysenw?

Turbo ma bois gwaith yn galw fi

Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?

Wagon wheel jam achos ma nhw'n ffein iawn!

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?

Ci defaid siŵr o fod. Cal bod mas yn yr awyr iach yn joio.

Beth yw dy arbenigedd?

Dringo polion!

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Bod mas yn yr awyr iach yn gweithio mewn lleoliad gwahanol bod dydd

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Bod allan yn y gwynt ar glaw

Y peth gorau am yr ardal hon?

Cael byw yn cefn gwlad. Digon o le a rhyddid i wneud popeth fi'n dymuno fel mynd allan ar fy motor beic

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Gorfod dreifio chwarter awr cyn cyrraedd siop. Bach yn ffwdanus



pan chi'n neud paned o de a sylweddoli bod dim llaeth yn y tŷ!

Pa mor wyrdd wyt ti?

Weddol fi'n credu. Treial fy ngore

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Cymraeg

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Pwdryn

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Prynu tocyn gwylie i Awstralia - a un i Mari hefyd!

Beth sy'n codi ofn arnat?

Rollercoasters. Er bod fi'n joio mynd yn gloi ar gefen beic

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?

Dweud fy mod i ddim ond yn mynd i aros i gael un peint ar ôl gêm!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?

Ennill yr Euromillion - sdim lot o obaith i'r freuddwyd ddod yn wir achos fi byth yn prynu tocyn.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Paso mas fel 'linesman'

Ac yn bersonol?

Bod yn rhan o dim ieuencid rygbi Llanbed nath ennill y gynghrair yn 2017 a hefyd CFFI Cwmann yn ennill gyda'r meim yn steddfod Cymru yn Llandudno llynedd.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Edrych nôl ma cwpwl o bethe efallai allen i fod wedi gwneud yn wahanol ond dwi dim yn dyfaru dim. Ma popeth yn digwydd am reswm.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?

Bwyta digon o takeaways.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Dwi'n ceisio chwarae rygbi bob dydd Sadwrn a ymarfer dwywaith yr wythnos ac wrth gwrs ma'r swydd yn weddol gorfforol felly ma hwnnw'n helpu.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

I fwynhau bywyd a chymryd bob cyfle ddaw, oherwydd dim ond un bywyd gei di.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Cal swydd gyda Western Power yn 16

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Gweithgar, Cydwybodol a Hapus

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Mercedes A class

Beth yw dy hoff wisg?

Jîns, trainers a hoodie fwya, er fi yn joio gwisgo siwt pan ma'r cyfle yn dod i wisgo lan.

A'th hoff adeilad?

Clwb Rygbi Llanbed. Lle perffaith i wylïo gêm rygbi ac i gymdeithasu gyda ffrindiau.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Rhywun sy'n gwybod beth ma nhw'n neud fel Bear Grylls a Mari wrth gwrs.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Dewis caled. Dwi'n hoff o sawl cludfwyd ond y ffefryn yw pizza

Beth yw dy ddiod arferol?

Y ddau ffefryn yw naill nai paned o de neu peint o lager

Beth yw cynnwys dy oergell di?

Stwff i'r bocs bwyd yn bennaf

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Dwi ddim yn cal llawer o amser i ddarllen ond fi yn hoff iawn o Dirt Bike Rider, cylchgrawn beiciau modur.

Beth yw dy hoff arogl?

Dihuno i arogl bacwn yn ffrio yn y bore

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Fy nhaldra. Siŵr dylen i fod tua troedfedd yn uwch!

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Ffôn symudol. Ma popeth arno.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Siŵr bod y bois rygbi yn cytuno os ddweda i cico pêl rygbi

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?

Yn y flwyddyn ola mewn prifysgol siŵr o fod.

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?

Rhieni a mam-gu a dad-cu y ddwy ochor.

Y gwyliau gorau?

Ayia Napa gyda ffrindie ysgol pan yn 18

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?

Wyddfa, Pen y Fan, Tŷ Ddewi

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

Awstralia, America a Dubai

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Mynd i fyny'r Wyddfa, rhedeg marathon a gweld bach mwy o'r byd

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Kiera Cashel, Llanybydder



Y mae ras heol 20 milltir yn baratoad da ar gyfer marathon a chan fod marathon blynyddol Llundain yn digwydd yn Ebrill hwyrach mai dyna sy'n esbonio'r ffaith fod yna ddwy ras 20 milltir yn digwydd yng Nghymru bob mis Mawrth ers wyth degau'r ganrif ddiwethaf, sef yr un amgylch y llynnoedd yn Rhaeadr a ras clwb rhedeg San Domenico, Caerdydd.



Aeth dau redwr pellter profiadol o glwb Sarn Helen i Raeadr ar yr ail o Fawrth a gyda dros 500 yn rhedeg llwyddodd Nigel Davies i ddod yn 33 (ac yn 9fed dros 45 oed) mewn 2 awr 16 munud a 16 eiliad, llai na munud o flaen Meic Davies (2.17.03) a ddaeth yn 36 ond yn cipio'r 3ydd wobwr yn nosbarth y dynion dros 50 oed.

Arferai ras San Domenico ddilyn cwrs dros wastatiroedd Gwent

o Gaerdydd i Gasnewydd ac yn ôl ond bellach bu'r ras hon yn dechrau a gorffen yn Merthyr ers blynyddoedd lawer. Yr oedd 5 aelod o'r clwb ymhlith y 400 a redodd yno ar yr ail ar bymtheg o Fawrth eleni a daeth Ken Caulkett yn 13 (ac yn 9fed dros 35 oed) mewn 2 awr 24 munud ac 20 eiliad ac Alex Price yn 53 (2.40.01). Gwnaeth Pamela Carter (3.19.05) Jenny Caulkett (3.27.02) a Nicola Davies (3.48.00) yn dda hefyd i ymdopi â'r cwrs heriol hyn sy'n dilyn Llwybr Taf ond hefyd yn cynnwys tipyn o ddringo.

Yr oedd ambell i achlysur i ddathlu Gŵyl Dewi hefyd ar ddechrau'r mis, y cyntaf ohonynt (Ras Dewi Sant) yn cynnwys hanner marathon a ras 10 cilometr ar hyd Llwybr yr Arfordir yn Nhyddewi.



Yr oedd gan y clwb fuddugwr yn y ras 10 cilometr wrth i Steffan Thomas ddod adref gyda phrin 8 eiliad i sbario mewn 44 munud a 56 eiliad. Brwydrodd Nicola Williams yn ogystal yn erbyn y dirwedd anodd a pheth anhwylder i orffen mewn 72 munud a 49 eiliad. Yr oedd rhai o redwyr y clwb yn amlwg yn yr hanner marathon hefyd - Simon Hall yn 3ydd allan o fwy na 200 mewn 1 awr 34 munud a 29 eiliad, Mark Rivers yn ail dros 40 oed (1.35.41) a'i gymar Eleri'n 1af o'r menywod dros 40 oed (1.55.09).



Yna'n nes adref ar y 10fed cynhaliwyd Ras Gŵyl Dewi yn Llanddewi Brefi a dim syndod efallai fod yno 20 o redwyr Sarn Helen ymhlith y 53 a redodd i Dregaron ac yn ôl, gan gynnwys yr enillydd, Sion Price a gwblhaodd y 10 cilometr mewn record bersonol am y pellter - 34 munud a 10 eiliad - gyda dau o redwyr clwb Aberystwyth, Gary Wyn Davies ac Owain Schiavone yn ail a 3ydd. Rhedwr nesaf Sarn Helen oedd Meic Davies (1f dros 50 oed ac yn 7fed yn y ras) mewn 40 munud yn gywir gyda Dafydd Lloyd yn dangos addewid arbennig i ddod yn 8fed (a'r 1af dan 17 oed) mewn 40.35,

ychydig o flaen Nigel Davies (40.49). Bu rhaid i Steffan Thomas (42.05) fodloni ar ddod yn 10fed y tro hwn, trwch blewyn yn unig o flaen enillydd ras y menywod, Dee Jolly (42.05). Enillwyd gwobrau hefyd gan Eilir Evans (43.07 - ail dros 40 oed,)

Caryl Davies (43.58 - ail fenyw,) Michael Taylor (46.04 - dyn 1af dros

55 oed,) Mitchell Readwin (48.51 - ail ddyn dros 35 oed,) Siân Roberts Jones (49.16 - menyw gyntaf dros 35 oed,) Nicola Williams (record bersonol o 49.43 - 3ydd fenyw,) Carol Rees (52.52 - y fenyw gyntaf dros 45 oed,) Enfys Needham Jones (record bersonol o 53.53 - yr ail fenyw dros 45.) Y mae llawer i fryncyn a phant rhwng Llanddewi a Thregaron a gwnaeth Amy Edgell (54.36) Nicola Davies (57.37) Elisha Leigh Jones (58.39) Rebecca Doswell (60.27) Sandra Drabner (record bersonol o 60.27) a Jane Holmes (65.02) yn dda i ymdopi â'r pellter ar ddiwrnod gwyntog.

Un o uchafbwyntiau'r mis i'r clwb hefyd oedd perfformiad Caryl Wyn Davies yn hanner marathon Ynys Môn ar y 3ydd o Fawrth - yn 8fed fenyw yn y ras mewn 91 munud a 44 eiliad ac yn 52 allan o fwy na 1300 o redwyr. Dau fu'r rhedeg tu hwnt i Glawdd Offa oedd Mitchell Readwin a'i fab Chris - y naill yn rhedeg ras 10 milltir yn Looe yng Nghernyw ar yr 28ain o Chwefror mewn 90 munud a 18 eiliad a'r llall yn dod yn 8fed allan o gant yn y ras filltir i'r ieuenctid.

Yr oedd tipyn o ymarfer beicio a rhedeg yn ystod mis Mawrth i'r cystadleuwyr treithlon hefyd, heb orfod mentro i'r dŵr. Cwblhaodd Eric Rees gwrs deuathlon Sir Benfro yn Neyland ar y 3ydd o Fawrth mewn 80 munud a 50 eiliad gydag Owen McConochie yn dilyn mewn 87.39 wedi rhedeg 5 cilometr, beicio 20 cilometr a rhedeg 2.5 cilometr i orffen. Ar y 10fed daeth Kevin James yn 12fed (ac yn 1af dros 45 oed) yn y Gerddi Botaneg ger Llanarthne mewn 76 munud a 17 eiliad gyda David Thomas yn dilyn mewn 100 munud a 56 eiliad gan ddod yn 6ed dros 55 oed wrth redeg 5 cilometr a beicio 28 cilometr cyn rhedeg 5 cilometr i orffen.

Wedi gwanwyn ffug y mis bach cafwyd Mawrth o wynt a glaw ond yn awr edrychwn ymlaen at ffarwelio â'r stormydd a'r nosweithiau tywyll.

SylwadAu'r SNeMa gan Gary Slaymaker



Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn yr wythnosau nesaf:

12fed Ebrill - Peterloo - Wedi blynyddoedd o greu ffilmie bach, yn plethu comedi a drama, am bobol gyffredin yn byw yn y byd modern, nath Mike Leigh newid cyfeiriad yn rhyfeddol llynedd gyda Peterloo. 1819, ma'r rhyfel yn erbyn Napoleon drosodd, ac ma' 'na newyn erchyll wedi cydio ym Mhrydain. Ac yn ystod protest heddychlon yn ardal Peterloo, Manceinion, ma bobol yn begian am welliant i'w safonau byw. Mewn panic, ma'r awdurdau'n danfon y fyddin i fewn i'r ardal, a cyn pen dim ma'r brotest wedi troi'n lladdfa. Yn nwylo Ken Loach, mae'n bosib bydde Peterloo wedi gorffen fel campwaith gwleidyddol; ond d'yw Leigh ddim yn galler cydio yn yr un fath o ddicter sosialaidd fan hyn, ac ma'r stori'n teimlo'n braidd yn ddi-gyfeiriad. Wedi gweud hynny, mae e'n llwyddo i gâl perfformiade nerthol o'i gast (yn enwedig Rory Kinnear a Maxine Peak), ac yn dal i gynnig diwedd glo pwerus, wrth i'r gwaed ddechrau llyfo. Y gwendid arall yw bod na lawer gormod o gymeriadau'n rhan o'r stori, ac er bod y ffilm dros ddwy awr a hanner o hyd, mae dal yn teimlo'n rhy fishi ac yn dameidiog, wrth drial rhoi amser i bawb cael gweud eu storiâu. Mae'n ymdrech ddewr i gofnodi achos mileinig yn hanes Prydain; ond d'yw hi ddim cweit yn cyraedd y nôd cystal a ddyle hi, falle.

26ain Ebrill - Stan and Ollie

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu eich stori chi.



Drefach a Llanwenog

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Dechreuodd ail hanner tymor y Gwanwyn mor brysur ag arfer i blant Ysgol Dyffryn Cledlyn. Ar y dydd Llun cyntaf yn ôl braf oedd gweld nifer fawr o'r plant wedi gwisgo yn neu gwisg Cymreig traddodiadol. Aeth plant blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i bâred Dydd Gŵyl Dewi yn Llanbed. Cafodd y plant gyfle i ganu i'r gynulleidfa yn Neuadd Fictoria cyn cwrdd â chyn-chwaraewr rygbi Emyr Lewis.

Braf oedd gweld parti o ferched yn cystadlu yng Ngwyl Offerynnol Rhanbarth yr Urdd yn Felinfach. Daeth llwyddiant i'r ensemble offerynnol drwy gipio'r drydedd wobwr.

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr a chafodd ei drefnu gyda'r Cyngor Ysgol drwy holl blant yr Ysgol a'r staff yn gwisgo fel cymeriad allan o stori. Yn ystod y dydd cafwyd gwahanol weithgareddau yn cymryd lle o sach stori lle roedd Gryffalo yn dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed, cafwyd sesiwn o ddarlenn di-dor, ac fel Ysgol darlennwyd dros 400 o lyfrau yn ystod y dydd. Roedd pawb wedi mwynhau yr holl weithgareddau.

Cynhaliwyd noson Diogelwch ar y We i rieni'r Ysgol. Bu rhai plant blynyddoedd 5 a 6 yn dangos ffilm, rhaglenni radio a phwerbwynt yr oeddent wedi gweithio arnynt. Noson o fudd i bawb.

Braf oedd cael croesawu C.Ff. I Llanwenog i ddefnyddio Neuadd yr Ysgol ar gyfer ei cyngerdd hanner awr adloniant, lle bu C.Ff. I Llanwenog, Troeduraur a Dyffryn Cothi yn perfformio.

Bu nifer fawr o disgyblion yr Ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Llanbed ar Fawrth 14eg. Llongyfarchiadau mawr i bawb am ei hymdrechion. Dyma'r canlyniadau:-

Unawd bl. 2 ac iau – 1af Noa Potter Jones

Llefaru bl. 2 ac iau – 1af Noa Potter Jones, 2il Elliw Grug Davies

Cerdd dant bl. 2 ac iau – 1af Noa Potter Jones, 2il Tirion Tomos

Unawd bl. 3 a 4 – 3ydd Sioned Elias Davies

Llefaru bl. 3 a 4 – 1af Fflur Morgan, 3ydd Esyllt Jones

Cerdd dant bl. 3 a 4 – 1af Elin Morgan, 2il Erin Potter Jones a 3ydd Fflur Morgan

Unawd bl. 5 a 6 – 2il Swyn Tomos
Llefaru bl. 5 a 6 – 3ydd Swyn Tomos

Cerdd dant bl. 5 a 6 – 2il Swyn Tomos

Alaw Werin bl. 6 ac iau – 1af Swyn Tomos

Parti Unsain – 3ydd

Côr – 2il

Parti Llefaru – 1af Parti Merched, 2il Parti Bechgyn

Da iawn chi gyd. Gwaith gwyach.

Ar ddydd Mawrth, Mawrth 19eg tro'r dawnsyr oedd hi i berfformio yn Eisteddfod Ddawns Rhanbarth yn Ysgol Bro Teifi, ac eto daeth llwyddiant i'r plant gyda grŵwpiau dawnsio gwerin bl. 3 a 4 a bl. 5 a 6 yn cipio'r 2il wobwr. Llongyfarchiadau mawr i chi hefyd. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi helpu mewn unrhyw ffordd gyda llwyddiant yr eisteddfod.

C.Ff.I. Llanwenog

Yn ystod hanner tymor Chwefror, buom yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant. Cafodd y clwb 6ed ar ddiwedd y cystadlu. Diolch i'r holl arweinyddion a fu yn helpu mewn unrhyw ffordd. Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus eleni eto a braf oedd croesawu C.Ff. Troeduraur a C.Ff. Dyffryn Cothi atom. Llywydd y noson oedd Mrs Eiddwen Hatcher; cafwyd araith bwrpasol, a diolch am y rhodd hael i'r clwb. Roedd y gynulleidfa luosog wedi mwynhau noson ddigri.

Noson o hwyl a sbri a gawsom yn Nhalardd yng nghwmni C.Ff. Llanllwni gyda steddfod dafarn. Bu cystadlu brwd rhwng y ddau glwb.

Bu rhai o'r clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru yn Llanellwedd a buom yn hynod o lwyddiannus yn ystod y dydd. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r clwb, cysylltwch gydag un o'r aelodau neu am rhagor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda theulu'r diweddar Mair Williams, 5 Llys Idwal, Llanbedd ond gynt o 3 Bro Gwenog, Drefach a fu farw yng Nghartref Hafan Deg, Llanbedd yn ystod y mis. Roedd Mair yn gyn gogyddes yn Ysgol Llanwenog flynyddoedd yn ôl.

Eglwys Llanwenog

Nos Wener, Ebrill 26ain am 7 o'r gloch, bydd David Cooper yn cyflwyno darlith am ei fywyd a'i waith fel milwr yn yr Almaen yn y 60au. Mae ganddo straeon am ddirgelwch a gwybodaeth sydd heb ei ddatgelu o'r blaen. Tocyn yn £10 i gynnwys bwyd a diod - cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Eglwys am fwy o fanylion.

Gwellhad buan i Hyw Davies, Ornant sydd heb fod yn hwylus ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i Dafydd Rhys Thomas (Llechwedd) ar ei benodiad yn 'Head of Global Education' gyda chwmni Ghd yn Llundain. Bydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r brand ar draws 84 o wledydd y byd ac mae newydd ddychwelyd o Beijing a Rwsia.

Un o'r teithiau nesaf sydd ar y gweill ganddo yw hedfan i Philadelphia lle bydd yn ymddangos ar raglenni teledu QVC America yn arddangos a gwerthu'r offer diweddaraf ym myd harddwch a thrin gwallt. Er hyn nid yw Rhys wedi anghofio ei wreiddiau a bydd yn ymddangos yn gyson ar raglen Prawn Da gyda digon o 'tips' i'n cadw ni i edrych ar ein gorau. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei yrfa.

Organ Eglwys Llandysul

Dathlu trwsio organ bib Eglwys Llandysul, a'r organ yn 120 mlwydd oed

Mae organ bib Eglwys St Tysul, Llandysul wedi cael ei thrwsio. Bu'r offeryn yn dawel am gyfnod o dros 10 mlynedd wedi i'r mecanwaith tu fewn yr organ ddirywio cymaint nes aeth hi yn anodd i'w chwarae.

Nôl yn 2006, dechreuwyd cronfa i godi arian ar gyfer trwsio'r organ. Fe gynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, ac mi fu pobl yn hael iawn yn rhoi rhoddion tuag at y prosiect. Ar y pryd, comisiynwyd cwmni i roi amcangyfrif y gost o adfer yr organ yn ei chyfanrwydd. Amcangyfrifwyd pris o dros £80 mil, swm aruthrol.

Llwyddodd yr ymdrechion i godi tipyn o arian tuag at y gwaith; ond wrth i'r amser fynd yn ei flaen, y pryder oedd bod yr organ yn mynd i ddirywio ymhellach.

Yn 2016, aethant ati eto i ail asesu'r organ. Aeth aelod brwdfrydig o Eglwys Llandysul ati i astudio'r organ. Canfuwyd nad oedd angen adferiad llawn ar yr organ, gan fod yr offeryn o safon uchel iawn. Y mecanwaith oedd yn gwneud i'r allweddellau chwarae'r pibau oedd ar fai; roedd gweddill yr organ mewn cyflwr boddhaol.

Comisiynwyd cwmni o Malvern i ail-asesu'r gwaith o adfer yr organ. Cytunwyd nad oedd angen adfer yr organ yn gyfan gwbl. Byddai trwsio'r mecanwaith yn ddigon i wneud i'r offeryn chwarae eto. Roedd digon o arian yng nghronfa'r organ i ganiatáu hyn, gan bod trwsio'r organ llawer yn rhatach na'i hadfer yn gyfan gwbl. Paratowyd adroddiad gan y cwmni o Malvern. Torrwyd y gwaith o adfer yr organ mewn i nifer o gamau bach, a'r diweddgllo oedd organ wedi ei thrwsio a fyddai yn haws i'r Eglwys ei chynnal a chadw a chenedlaethau i'w mwynhau yn y dyfodol.

Dechreuwyd trwsio'r organ yn haf 2018, ac erbyn y Nadolig roedd yn gweithio unwaith eto. Roedd yn ffrain i glywed yr organ yn cael ei chwarae yn ystod gwasanaethau'r Ŵyl.

Yn 2019, mae'r organ yn dathlu 120 o flynyddoedd ers iddi gael ei gosod yn yr Eglwys. Adeiladwyd yr organ gan gwmni o'r enw Bedwells & Sons o Gaergrawnt. Gosodwyd yr organ yn yr Eglwys yn 1899.

Yn 1914, penderfynwyd gwneud yr organ yn fwy o faint, a'i symud i'w lleoliad presennol. Roedd angen pwpio'r aer i fewn i'r organ drwy fegin llaw ar y pryd.

Cafodd yr organ ei adfer yn llwyr yn 1927, ac fe'i gwnaed yn fwy eto.

Yn ystod gaeaf 1946-47, cafwyd trychineb mawr. Daeth eira i mewn drwy'r to uwchben yr organ a dinistriwyd y rhan lle roedd y pibau mwyaf pwerus. Trwsiodwyd yr organ gan y cwmni adnabyddus 'Messrs William Hill, and Son, Norman & Beard', ac fe fu'r organ yn eu gofal nes 2007. Buont yn sicrhau bod yr organ yn parhau i fod o safon uchel am flynyddoedd ond roedd y gost o'i chynnal a'i chadw yn cynyddu yn gyson.

Rydyn ar ddeall taw hon yw'r organ fwyaf yn Sir Ceredigion, ac mae o safon uchel iawn.

I ddathlu bod yr organ yn gweithio unwaith eto ac yn dathlu ei phen-blwydd yn 120 oed, bydd cyngerdd arbennig yng nghwmni yr organydd enwog Huw Tregelles Williams ar nos Sadwrn y 6ed o Ebrill 2019 am 7:30yh. Mi fydd amrywiaeth o ganeuon yn cael eu chwarae, i ddangos yr amrediad o leisiau sydd gan yr organ fawr.

I archebu tocynnau, cysylltwch â'r Ficerdy yn Llandysul trwy ffonio 01559 363 874. Mae'r tocynnau yn amrywio o £7, £10 i £15. Dewch i fwynhau noson i'w chofio a chlywed cerddoriaeth organ yn cael ei chwarae ar offeryn unigryw yn eich ardal!



Llanllwni

Eglwys Sant Luc, Llanllwni Undeb y Mamau

Daeth Calvin Griffiths o Lanfihangel ar Arth atom fis Mawrth. Pwnc ei araith oedd Trydaneiddio Dyffryn Teifi i gyd-fynd â'r llyfr sydd wedi dod o'r wasg yn y misoedd diwethaf. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn ei gwmni, a diolch yn fawr iddo.

Mis nesa byddwn yn croesawu Yvonne Thomas, Drefach.

Llongyfarchwn Owain Davies, Gwndwn ar ennill y siaradwr gorau drwy Gymru yn yr Adran Hŷn o gystadleuaeth siarad cyhoeddus mudiad y Ffermwyr Ifanc a gynhaliwyd yn Llanellwedd ar 23ain o Fawrth. Daeth ei dîm i'r brig, ac enillodd Sir Gâr ar y diwrnod. Da iawn wir!

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Aled a Tydfil, Tremain (gynt Blaenborthyn) ar farwolaeth tad Aled yn ddiweddar.

Bydd gwasanaeth 5ed Sul y grŵp yn Llanllwni am 10.30yb. Gwasanaethir gan y Parch J. Kimber.

C.F.F.I Llanllwni

Wel dyma ni wedi cyrraedd mis Ebrill, mis yr wyau Pasg, ac i ni aelodau'r Ffermwyr Ifanc dechrau i fis prysur arall. Ers y rhifyn diwethaf, bu'r clwb yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth yr Hanner Awr o Adloniant, gan gyrraedd y 6ed safle. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran a diolch i'r hyfforddwyr am eu gwaith. Ar ôl ymarfer ein sgiliau perfformio, roedd hi'n bryd mentro i fyd y pancws wrth i'r aelodau geisio coginio ac addurno'r pancws perffaith. Mae'n rhaid dweud bod cyfuniad 'topings' rhai o'r aelodau yn eithaf diddorol! Mwynhaodd pawb y noson, yn enwedig bwyta'r creadigaethau. Fe drodd 'flipio' pancws mewn i fwrw biniau bowllo wrth i ddau dîm o'r Clwb gystadlu yng nghystadleuaeth Bowllo Deg y Sir ar y 6ed o Fawrth.

Ar ôl cyflawni'r gweithgareddau yma i gyd, roedd hi'n bryd ail-ymweld â'r llwyfan wrth i'r Clwb gynnal Noson o Adloniant yng nghwmni Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog, ar y 15fed o Fawrth. Bu'r noson yn llawn mwynhad a chwerthin wrth i nifer o eitemau'r Eisteddfod ynghyd â pherfformiadau Hanner Awr y ddau glwb ddiddanu'r gynulleidfa. Digwyddiad arall oedd yn llawn hwyl a sbri oedd Eisteddfod Dafarn y clwb yng nghwmni Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog. Bu'r noson yn ffordd dda i weld pwy oedd strabs y ddau glwb, ac i fwynhau perfformiadau doniol iawn! Felly dyma ni wedi cyrraedd diwedd mis arall, a dechrau un newydd. Hwyl am y tro, Mared a Lowri.

Cylch Meithrin Llanllwni

Rydym wedi mwynhau nifer o

weithgareddau gwahanol yn ystod mis Mawrth - dathlu Gŵyl Ddewi, coginio pancws a gwneud bwyd adar. Buom hefyd yn codi arian tuag at Comic Relief trwy wisgo dillad tu fewn tu fas neu tu ôl tu blaen; codwyd £21.

Ar ddiwedd y mis, fe wnaethom ddweud ffarwel i'n arweinydd sef Bethan Vernon - dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol a diolchwn yn fawr iawn iddi am ei gwaith di-flino a phroffesiynol. Bydd y plant, rhieni a'r pwyllgor yn gweld ei heisiau yn fawr iawn. Cofia ddod yn ôl i'n gweld yn y cylch. Cafwyd sawl parti i ffarwelio â hi.

Cofiwch am ein bingo Pasg ar yr 8fed o Ebrill yn nhafarn y Talardd - cofiwch ddod i gefnogi.

Hoffem hysbysu mai Nerys Thomas fydd arweinydd newydd y cylch o ddiwedd mis Mawrth ymlaen - croesawn hi yn fawr iawn a gobeithio y byddi yn mwynhau yn y cylch meithrin.

Os ydych am fwy o fanylion ynglŷn â Chylch Meithrin Llanllwni, cysylltwch â Helen ar 01559395624 neu trwy ebost-cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk. Cofiwch edrych ar ein tudalen Facebook am y newyddion diweddaraf - Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Mae aelodau Cylch Ti a Fi wedi mwynhau crefft Gŵyl Ddewi, gwanwyn a chreu pethau arbennig ar gyfer Sul y Mamau.

Amserlen mis Ebrill
02/04/19 - Chwarae tu allan
09/04/19 - Gweithgareddau Pasg
Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynhawniau Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1 a 3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofalgwyr, mam-gus a thad-cus i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

Ysgol Llanllwni

Ymunodd yr Adran Iau â Gorymdaith i dathlu Gŵyl Dewi Sant a oedd wedi ei drefnu gan Gyngor y dre. Ar ôl gorymdeithio bu pob ysgol yn gwneud eitem yn Neuadd Fictoria.

Ar Ddiwrnod y Llyfr cafodd y plant wisgo fel cymeriad o lyfr. Roedd y plant yn edrych yn lliwgar iawn ac roedd rhai wedi dod â'u hoff lyfr o gartref i'r ysgol.

Daeth ffotograffydd o Gwmni Finesse i'r ysgol i dynnu lluniau'r plant yn unigol ac fel teuluoedd.

Prynodd y plant drwynau coch ar gyfer Diwrnod Trwyn Coch a dod mewn dillad heb fod yn wisg ysgol er mwyn codi arian i elusen Comic Relief.

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn

Eisteddfod yr Urdd, Cylch Llanbed. Aeth rhai plant o'r Cyfnod Sylfaen i'r rhagbrofion yng nghapel a festri Brondeifi yn y bore gan wneud eu gorau. Roedd yn brofiad iddynt wynebu cynulleidfa a phlant eraill. Da iawn chi blant. Ar ôl ysgol bu'r ysgol yn cystadlu yn y parti canu, y grŵp llefaru a'r ymgom gan gael hwyl. Roedd yn brofiad newydd i lawer ohonynt berfformio ar lwyfan mor fawr. Llongyfarchiadau i'r parti canu a fydd wedi cystadlu yn Eisteddfod y Sir ym Mhontrhydfendigaid erbyn i'r rhifyn yma ymddangos. Diolch i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio i'r parti canu. Ysgol Llanllwni oedd yng ngofal trefnu'r Eisteddfod eleni a diolch i'r rhieni a staff yr ysgol am yr holl waith cyn ac ar y dydd. Diolch yn arbennig i Miss Charlotte Evans, Ysgrifenyddes y pwyllgor am yr holl waith paratoi gan sicrhau bod yr Eisteddfod wedi bod mor lwyddiannus. Llywydd y dydd oedd Mrs. Nans Davies, cyn brifathrawes yr ysgol. Cyflwynodd Mared ac Elan blac i Mrs. Nans Davies a chyflwynodd Elliw a Liwsi dusw o flodau iddi.

Mae pwyllgor Rhieni a Ffrindiau'r Ysgol wrthi'n trefnu Cyngerdd yng Nghapel Nonni ar y 10fed o Fai pan fydd plant yr ysgol a Bois y Rhedyn yn diddanu'r gynulleidfa. Cofiwch roi'r dyddiad yn eich dyddiadur!

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol Mis Mawrth-
1af -£10 – Mr. Gareth Jones, Prifathro, Ysgol Llanllwni
2ail - £5 – Mr Gareth Jones, Prifathro, Ysgol Llanllwni
3ydd - £5 – Ffion Rees, Llanllwni

Rydym eisiau clywed eich barn chi am Bapur Bro Clonc ac am wefan Clonc360.

???

Gofynnwn i chi lenwi
HOLIADURON
syml a chyflym arlein
drwy fynd i wefan
Papur Bro Clonc
www.clonc.co.uk
erbyn diwedd mis
Ebrill os gwelwch yn
dda.

Llanwnnen

Eisteddfod Capel y Groes

Cynhelir Eisteddfod Capel y Groes ddydd Mercher y 24ain o Ebrill. Bydd y cystadlu yn dechrau am 1.30yp gyda'r adran gyfyngedig. Cofiwch hefyd am y cystadlaethau llenyddol a chelf. Dyddiad cau y gwaith llenyddol yw'r 15fed o Ebrill, a gofynnir i bawb ddod â'r gwaith celf i festri'r capel, ddydd Mawrth y 23ain o Ebrill rhwng 1.00 a 3.00 o'r gloch. Os hoffech gopi o'r rhaglen, cofiwch gysylltu gyda'r ysgrifenyddes sef Ann Davies ar 01559 362626 neu ewch i wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Edrychwn ymlaen i'ch gweld eleni eto.

Gorsgoch

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Helen, Maesygarth ar ennill cadair Eisteddfod Cynwyl-Elfed yn ddiweddar.

Clwb Llyfrau Gorsgoch

Mae croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni yn y clwb llyfrau, sy'n cwrdd ar y trydydd nos Fercher o bob mis yn Neuadd yr Hafod. Rydyn ni'n darllen llyfrau Cymraeg a Saesneg am yn ail, a'r llyfr y mis hwn yw The Girl in the Letter gan Emily Gunnis.

Barod i'r Ysgol - Clwb i blant

Mae Jig-so wedi dechrau clwb i blant dros 2 oed yn Neuadd yr Hafod bob dydd Mawrth rhwng 9.30-11.30. Mae'r dosbarthiadau yn rhad ac am ddim, ac yn addas i blant a rhieni, gyda'r pwyslais ar gael hwyl. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Chanolfan Jig-so ar 01239615922.

Cwrdd y Pasg ym Mrynhafod

Bydd cwrdd y Pasg yng nghapel Brynhafod am 1.30 ar ddydd Sul y Pasg. Mae croeso i bawb, bydd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan, bydd helfa wyau Pasg i'r plant ar ôl y cwrdd, a phaned yn y festri hefyd i'r oedolion, wrth gwrs!

Cellan

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Delun Ebenezer, Hafod Gwilym am ddod yn 3ydd yn yr unawd blwyddyn 2 ac iau yn eisteddfod yr Urdd cylch Llanbedr Post Steffan ac hefyd i Beca Ebenezer, hefyd o Hafod Gwilym am ddod yn 3ydd yn yr unawd blwyddyn 5 a 6, 3ydd yn y cerdd dant blwyddyn 5 a 6 ac ail yn y llefaru blwyddyn 5 a 6. Da iawn i'r ddwy ohonoch.

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwy ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnwydd,

01570 434 243

07815 962 045

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns WELSH GIFTS

Llanbedr Pont Steffan

**COFRODDION A CHERDIAU CYMREIG
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU
GWNEUD Â LLAW YN EIN GWEITHDY**

DEWCH I YMWELD Â'N ADARAN BRIDODASAU NEWYDD

01570 423884

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynghor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorwyr Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Llanfair Clydogau

Cawl a Chwist

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn ôl yr arferiad gyda cawl a chwist yn y neuadd. Daeth dros ddeugain o bobol a phlant ynghyd i gymryd rhan, gyda deg o fyrddau. Cyn cychwyn cafwyd cawl blasus wedi ei baratoi gan Eleanor Evans, Nantymedd, gyda bara a chaws i bawb gael helpu eu hunain. Yna dechreuwyd y chwarae gyda Sally Leech, Tanyresgair yn cymryd y rhan arweiniol.

Wedi noson o chwarae brwd, y ferch gyda'r sgôr uchaf oedd Eleri Davies, Pentre gyda Glennis Gratwick â'r sgôr isaf. Timothy Evans, Efail Fach oedd y dyn â'r sgôr uchaf gyda Graham Sinclair â'r sgôr isaf. Enillwyr y plant oedd Sara Davies, Nantymedd ac Elonwy Thomas, Awelon yn rhannu gwobr y merched a Daniel Davies yn ennill ar ran y bechgyn. Enillydd trefniant blodau i oedolion oedd Elaine Coombes, Penlanmedd ac yn nosbarth y plant oedd Sara. Diolch i bawb a ddaeth â phwdin ac a wnaeth helpu Eleanor yn y gegin. Cafwyd noson hwylus iawn.

Mr a Mrs

Yn anffodus ni ddaeth digon ynghyd i gynnal y noson hon, ond rhaid diolch i Mared Rand Jones am droi i fyny i arwain y gystadleuaeth. Efallai bydd yn bosib i ail drefnu y noson yma yn y dyfodol pan fydd mwy o bobol ar gael i gymryd rhan.

Gwellhad Buan

Pleser oedd clywed fod Ron Coombes, Penlanmedd adref o Ysbyty Bronglais ar ôl cael pen-glin newydd a thipyn o gymhlethdod yn dilyn y driniaeth. Gobeithio, yn awr, y bydd yn gwella bob dydd. Ein dymuniadau gorau iddo.

Cap i Gymru

Mae'r pentre yn ymfalchïo yn llwyddiant Daniel John, ŵyr Arwyn ac Eleri, Pentre a mab Helen a Paul John. Enillodd Daniel ei gap cyntaf yn chwarae i Gymru o dan ddeunaw oed ym Mharc yr Arfau yng Nghaerdydd yn erbyn Ffrainc. Daeth Daniel ar y cae fel eilydd ar ôl chwarter awr, cael gêm dda, a bennu ar y tîm buddugol! Llongyfarchiadau cynnes iddo. Mae Daniel yn ddisgybl yn Ysgol Millfield, yn Street, Swydd Gwlad yr Haf.

Taith Menter Silian

Ar Ddydd Sadwrn Chwefror 16eg cawsom ddiwrnod ysbrydoledig yn ymweld â ardall Y Borth, gan ymweld ag adeiladau a phrosiectau cymunedol tebyg i'n rhai ni. Cyllidwyd y daith fel rhan o astudiaeth dichonoldeb sy'n cael ei ariannu gan arian LEADER a Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi a chyllidwyd drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Yn Libanus 1877 roeddem yn gallu gweld sut mae'n bosib addasu hen adeilad, drafftio oedd yn hen gapel yn fwyty a sinema moethus. Gwnaethom ymweld â siop a chaffi cymunedol newydd y Cletwr, sefydliad dielw, a ddatblygodd pan gymerodd y gymuned yr orsaf betrol segur bum mlynedd yn ôl. Mae Eglwys Sant Mihangel, Llandre wedi derbyn cyllid grant sylweddol i'w throï'n ofod y gall y gymuned ei defnyddio ac mae ei gynllun newydd yn rhoi syniad da i ni sut y gallai ein hadeilad weithio. Roedd Ystafell Haearn yn Eglwys Fach gynt yn Neuadd Eglwys Fictoraidd segur, wedi'i hadnewyddu'n gydymdeimladol i adeilad cymunedol a lleoliad digwyddiadau. Mae'n eiddo i'r Eglwys yng Nghymru, ond yn cael ei phryddesu i'r gymuned am rent rhad – fel y bydd yn wir gyda'n hen Eglwys ni. Dychwelwchom yn llawn syniadau o sut y gallai ein hadeilad ymgorffori gwahanol agweddau o'r lleoedd yr ymwelsom â hwy.

Libanus 1877 - Mae'r perchenogion wedi cadw nodweddion cyfnod tra'n eu cyfuno ag addurn moethus, seddi cyfforddus, a gwaith celf lleol wedi'i arddangos ar y waliau. Mae'r ffenestr yn lolfa goffi y festri yn nodwedd ysbennedd sy'n gwneud y gorau o'r golygfeydd tuag at Cors Fochno: i'ch atgoffa o'r ffaith bod gennym olygfeydd godidog o'n hadeilad yn Silian, a byddai'n dda gwneud yn fawr o hynny.

Eglwys Llangynfelyn - Ar daith o Libanus 1877 i Cletwr roeddem yn gallu cael cipolwg ar Eglwys segur Llangynfelyn, sydd wedi cael ei phrynu'n breifat ac sy'n cael ei throï'n llety. Dylid nodi'n arbennig y ffenestri to sydd wedi'u gosod yn y to i roi golau i'r llawr uchaf tra'n cadw'r ffenestri gwydr lliw traddodiadol.

Cletwr - Mae Cletwr yn ganolfan gymunedol brysur sy'n cynnal llawer o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys bore coffi gofalwyr, Dal Ati (cyfarfod misol i ddysgwyr Cymraeg), Gweu a Sgwrs a Sied Dynion. Mae wi-fi cyhoeddus am ddim, a Llyfrgell lyfrau a DVD i'w phori.

Cafodd y gymuned gyllid grant yn ddiweddar ar gyfer adeilad newydd sbon o'r radd flaenaf, sydd â gwres solar a gwresogi dan y llawr. Mae gan Cletwr amrywiaeth o gyrsiau, anerchiadau, perfformiadau a digwyddiadau eraill yn ystod y dydd a gyda'r nos.

Mae'r siop yn Cletwr yn darparu ar gyfer pob chwaeth a chyllideb, ac yn gwerthu'r hyn y mae'r gymuned ei eisiau – o siytnis a gynhyrchir yn lleol, mêl a jamiau a detholiad eang o gwrw a jin Cymreig, i ffa pob a sgolodion ffwrn 'Siopwyr Hapus'.

Eglwys Sant Mihangel, Llandre - Mae'r addasiadau yn cynnwys ystafell gynadledda gyda chegin fach, lle roeddem yn gallu eistedd a yfed te, gyda llofft ganol uwchben.

Mae adran gefn yr adeilad wedi ei rhannu oddi wrth weddill yr Eglwys gan raniad gwydr dwbl, sy'n inswleiddio tra'n caniatáu golygfa drwy'r adeilad cyfan. Os oes angen, gellir agor y drysau gwydr i ganiatáu defnyddio'r llawr gwaelod cyfan fel un, ond mae'r ymraniad yn caniatáu i rannau unigol o'r adeilad gael eu gwresogi yn ôl yr angen – gan reoli costau gwresogi.

Mae'r Eglwys yn rhan o'r llwybr treftadaeth lleoedd heddychlon, sy'n hyrwyddo ei thirwedd sanctaidd unigryw ei hun tra'n ei chysylltu â rhwydwaith o safleoedd eraill yng ngogledd Ceredigion.

Mae rhwydwaith o lwybrau hanesyddol a natur, gan gynnwys 'llwybr barddonol', yn ymestyn i'r fryngaer goediog o amgylch yr Eglwys ac yn cael ei chynnal gan y gymuned.

Yr Ystafell Haearn - Cafodd yr adeilad a oedd unwaith yn adfail ei adfer, diolch i arian grant o ffynonellau niferus.

Un o'r heriau lu oedd creu mynediad addas i fyny'r llethr serth at yr adeilad. Posiblirwyd ar gyfer y llethr hyd at y fynedfa i'n hadeilad, efallai?

Un o uchafbwyntiau tu mewn yr adeilad yw'r llwyfan Fictoraidd sydd wedi'i adfer, gyda sgrin taflunydd trydan sydd yn disgyn – sydd yn berffaith ar gyfer perfformiadau a dangos ffilm, ac yn sicr yn rhywbeth y byddai'n dda ei ymgorffori yn ein hadeilad ein hunain.

Ar nos Iau 2il o Fai cynhelir Digwyddiad Cymunedol nesaf Menter Silian yng Nghlwb Rygbi Llanbedr Pont-Stefferan rhwng 7.00 y.h. a 8.30 y.h. Dyma fydd yr ymgynghoriad terfynol gyda chyfle i adrodd yn ôl i'r cyhoedd casgliadau ymchwil Caroline James 'CJ Consulting', Helen Howells o gwmni Hwylus, Cynnal y Cardi ac aelodau Menter Silian. Fe fydd hefyd yn gyfle i ddatgelu y cam nesaf yn y broses o geisio adnewyddu ac addasu Eglwys Silian ar gyfer gweithredu fel canolfan gymunedol i drigolion y gymuned a thu hwnt. Estynnir croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn y fenter gyffrous hon.

Aled Evans

Llanybydder

Clwb Hoci Llanybydder

Wel am dymor! Enillwyd Cynghrair 5 De Cymru gan Glwb Hoci Llanybydder eleni. Yn wir, domineiddiwyd y gynghrair o'r dechrau un. Teyrnged i'r tîm yw'r ffaith mai ond 3 gôl sydd wedi eu hatal yn ystod y 12 gêm a fu. Ymlaen nawr at uchafbwynt y tymor sef gêm derfynol y Plat ar y 13eg o Ebrill ym Mhenybont-ar-Ogwr.

Y mae wedi bod yn brofiad braf gweld brwdfrydedd, hyder, a sgiliau y criw ifanc yn datblygu dros y flwyddyn, yn ogystal ag ymroddiad y criw hŷn i Glwb Hoci Llanybydder. Diolch i'r noddwyr am eu cefnogaeth di-ddiwedd. Diolch hefyd i bawb fu'n dyfarnu i ni yn ystod y tymor. Ymlaen â ni!

Arwerthiant Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant Flynyddol Aberduar yn y Ffestri ar nos Fercher, 20fed o Fawrth. Daeth llond y Ffestri ynghyd i gymdeithasu, ac i gefnogi'r noson, a brofodd i fod fel arfer, yn achlysur llwyddiannus dros ben.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan ein Gweinidog, y Parch Densil Morgan, gan groesawu pawb yn gynnes iawn i noson sydd wedi hen sefydlu ei hun ar galendr yr Eglwys.

Agorwyd y noson yn swyddogol gan Eryl Jones. Cafodd Eryl ei fagu ym mhentref Cwrtnewydd, mynychodd Ysgol Gynradd y pentref, cyn symud i ysgol Uwchradd Llamed. Wedyn, aeth i'r Brifysgol yng Nghaerdydd i astudio Cyfrifyddiaeth (accountancy) a graddio gyda gradd dosbarth cyntaf yn y pwnc.



Dyma lun o'r gweinidog, Parch Densil Morgan, y gŵr gwadd sef Eryl Jones, a'r chwiorydd yn noson Arwerthiant Aberduar.

Ymunodd â chwmni Coopers a Lybrand am gyfnod cyn dychwelyd i agor busnes ei hunan yn Llanybydder. Mae'r busnes yn dathlu ugain mlynedd o fodolaeth eleni, ac yn cyflogi chwech o bobl.

Roedd hen fam-gu a thad-cu Eryl yn aelodau ffyddlon yn Aberduar, ac wedi eu claddu yn y fynwent.

Cafwyd noson hyfryd dros ben, a chodwyd arian sylweddol i goffrau Cymdeithas y Chwiorydd.

Diolch i Eryl am ei rodd hael, ac i bawb am gydweithio gyda'r trefniadau i sicrhau llwyddiant y noson.

Fel arwydd o werthfawrogiad cyflwynodd y Parch Densil Morgan anrheg i Eryl ar ran y Chwiorydd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â William Evans a'r teulu ar farwolaeth ei dad, Tom Evans, 7 Lôn Oleuwedd, Caernarfon, gynt o Prospect House, Llanybydder. Bu Tom yn gweithio yn Ffatri Laeth Felinfach am flynyddoedd lawer.



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"




- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Yr Hudlath a'r Haearn

Mae awdur yn gobeithio y bydd ei addasiad o gyfres The Wizards of Once yn dod â chwedloniaeth Cymru yn fyw i blant a phobol ifanc. Fe fydd y fersiwn iaith Gymraeg, Yr Hudlath a'r Haearn, yn cael ei lansio yn yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd ar 31 Mawrth. Dywedodd yr awdur Ifan Morgan Jones ei fod yn gweld tebygrwydd mawr rhwng hanes Cymru a phlot y nofel a dyna oedd wedi ei ysbrydoli i fynd i'r afael â'r gwaith. Ysgrifennwyd y nofel wreiddiol gan Cressida Cowell, awdur y gyfres How to Train Your Dragon. "Mae'n nofel am yr hyn sy'n digwydd pan mae Rhyfelwyr yn ymosod ar orllewin Ynysoedd Prydain ac yn mynd i ryfel â'r Dewiniaid brodorol," meddai Ifan Morgan Jones sy'n byw yng Nghroeslan ger Llandysul. "Roeddwn i'n gweld tebygrwydd gyda hanes yr Eingl-sacsonaidd a'r Celtiaid, a chwedloniaeth Cymru, ac yn credu ei fod yn gyfle i chwarae â'r themâu rheini." Yn y nofel antur gyffrous mae'r Rhyfelwr Dôn a'r Dewin Llŷr yn gorfod cydweithio er mwyn brwydro yn erbyn gwrach ddrygonus sydd yn criplan i mewn i'r goedwig lle y maent yn byw. "Yn ogystal â'r cyfle i ddweud hanes cyffrous a doniol roedd cyfle wrth addasu'r nofel i gyflwyno plant a phobol ifanc Cymru i chwedloniaeth y wlad," meddai Ifan Morgan Jones, sy'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor. "Rydw i wedi cynnwys creaduriaid o fytholeg Cymru fel y Gath Palug, Ysbaddaden Bencawr, bwbachod ac yn y blaen fel bod y stori yn teimlo fel ei bod wedi ei gwreiddio ym mytholeg y wlad. "Roedd y llyfr yn lot o hwyl i'w haddasu ac roeddwn i'n gallu gweld pam ei bod wedi gwerthu cystal yn Saesneg." Mae'r Hudlath a'r Haearn bellach ar gael yn y siopau ac yn costio £6.99.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

**Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY**

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk



Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Ha ha ha

Wrth fynd i rai o'r digwyddiadau diweddar i ddathlu'r cof am Eirwyn Pontsian y dechreuais i feddwl peth mor ddoniol ydi hiwmor.

Rhyw gwpwl o weithiau y ces i gwrdd ag o, ac unwaith cael yr her i'w gyflwyno mewn noson ym mar cefn tŷ tafarn yn Aberystwyth.

A chofio bryd hynny mai hanner y gynulleidfa oedd yn chwerthin. Roedd y rheiny'n chwerthin ei hochr hi; doedd y lleill yn gweld dim yn ddoniol.

Ar y cyfan, doedd stiwdants o lefydd fel Caerdydd ddim yn chwerthin, a phobol cefn gwlad yn gwneud. A'r rheswm yn amlwg – roedd straeon Eirwyn Pontsian yn codi o fath arbennig o ddiwylliant mewn math arbennig o ardal ac roedd angen deall y rheiny i ddeall y digrifwch.

Roedd ei hiwmor yn perthyn yn aml i straeon celwydd golau a throeon trwstan ac nid jôcs oedden nhw ond chwedlau. Mi allech chi ddychmygu y byddai Pontsian yn llwyddiant anferth yn Iwerddon.

Hiwmor caletach oedd yn yr ardal lle ces i fy magu; cymuned oedd wedi codi o gwmpas y chwareli llechi lle'r oedd cannoedd o bobol o sawl ardal wahanol wedi'u taflu at ei gilydd a gorfod dysgu cyd-fyw benelin wrth benelin a chydweithio mewn diwydiant peryg.

Mae diwylliant yn bwysig felly. Fel efo pob math o gyfathrebu – o bregethwr i riortar papur newydd – mae angen bod ar yr un donfedd â'ch cynulleidfa a gwybod pa fotymau i'w pwyso.

Mae hwyliau'n hanfodol hefyd. Ambell noson, mi fyddwn ni ag awch i chwerthin; dro arall, mi fydd person doniola'r byd yn swnio bach yn ddiflas. Does wybod pam ... am eich bod wedi cael ffrae efo'ch gŵr neu wraig falle neu am eich bod wedi blino neu'n poeni am rywbeth ... mi all y cyfan amharu ar eich gallu i chwerthin.

Mi all hynny weithio hyd yn oed ar raddfa cynulleidfa gyfan. Mae perfformwyr yn gwybod yn iawn sut y gall cynulleidfa un noson chwerthin lond y lle tra bod pobol debyg y noson wedyn mor hir eu hwynebau â chynhadledd o ymgymerwyr. Er fod y sioe yr un.

A be am y sawl sy'n perfformio? Dw i'n cofio nad oedd pawb hyd yn oed yn yr ardaloedd yma yn gwerthfawrogi Pontsian. Doedd rhai ddim yn hoff o'r syniad ei fod cymaint mewn tai tafarndai neu fod dyn yn ei oed a'i amser yn dweud ambell air rhy goch.

Mi fyddai rhai wedyn yn ei weld o Eisteddfod i Eisteddfod ac yn meddwl be oedd yn digwydd gartre' tra oedd yntau ar garant; yn meddwl bod rhywun siŵr o fod yn gorfod cadw'r olwynion i droi. A meddwl am hynny'n ddigon i rewi'u hawydd i wenu.

A pham fod rhai pobol yn ddoniol yn eu hanfod? Yn Nhalgarreg ar y nos Sadwrn, doedd dim ond angen i Ifan Tregaron ddod i'r llwyfan cyn fod pobol yn dechrau chwerthin. Rhywbeth yn ystum ei freichiau a'i ffordd o ddal i ben a'r mymryn atal yn cryfhau digrifwch y geiriau.

Mae gan Owain Davies Llanllwni yr un gynneddf. Mae rhywbeth yn y cyfuniad o foi ifanc cyfoes yn siarad mewn ffordd mor gartrefol o wledig a hen ffasiwn yn bownd o godi gwên ... a'i amseriad yn berffaith ... mae distawrwydd yn ddoniol hefyd.

Mi gafodd Ifan Gruffydd help Euros Lewis y noson honno, ar ffurf cyfeilydd prin ei olwg a'i sens. I rai, y syniad ei hun oedd fwyaf digri', i eraill ei weld yn cerdded i mewn i wal ac esgus taro'i ben.

Trwy'r cyfan, roedd pawb yn cael rhywbeth i blesio ond fyddai Sais o Lundain wedi gweld dim yn yr un perfformiad, hyd yn oed petai'n deall yr iaith. Mi fyddai popeth wedi ymddangos fel adloniant o blaned arall.

A finnau ... mi ges fy atgoffa o hen nosweithiau llawen a festri Capel Bethel Waunfawr. A'r hiraeth a'r atgofion yn rhoi min ar fy synnwyr digrifwch innau.

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Gwasanaethau Coed Llambled



Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llambled, SA48 8JX
01570 422819
www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewies.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO
AA

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS
& **BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Eisteddfod y Dysgwyr

Cynhaliwyd Eisteddfod y Dysgwyr eleni yng nglwb rygbi Aberhonddu a braf oedd gweld cymaint o ddysgwyr Ceredigion yn dod ynghyd i gystadlu er waetha'r ffaith nad oedd nifer ohonynt wedi bod ar gyfyl yr un eisteddfod erioed! Yn wir, dau dymor yn unig oedd rhai o'r dysgwyr wedi bod yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg ac felly'r dasg gyntaf iddyn nhw oedd ceisio ynganu'r geiriau'n gywir. Tipyn o sialens chwarae teg a rhaid eu canmol yn fawr am eu hymdrechion a'u dyfalbarhad. Bu'r ymarferion yn y theatr a'r Neuadd bentref yn Felin-fach gyda Meryl Evans (Pennaeth Dysgu Cymraeg) yn arwain a Gwyneth Davies (tiwtor) yn cyfeilio.



Y dysgwyr yn cael hoe fach yn ystod yr ymarfer yn y theatr
Gwrando ar gyfarwyddiadau Meryl Evans yn ystod un o'r ymarferion.

Bant â ni wedyn ar y bws i Aberhonddu - pawb yn gyffrous ond ychydig yn nerfus wrth gwrs! Cafwyd tipyn o hwyl yn yr Eisteddfod ac enillwyd nifer o wobrau. Dyma'r canlyniadau:-

Parti Canu (rhwng 5 ac 20 mewn nifer) – 1af.
Parti Canu (rhwng 3 a 9 mewn nifer) – 1af a 3ydd.
Unawd – 2il, Aidan Jones.



Bonws oedd ennill gwobrau wrth gwrs. Cael y cyfle i gymryd rhan, cymdeithasu ac ymarfer siarad Cymraeg oedd yn bwysig. Cafwyd bwffe bendigedig yn ystod yr egwyl a phawb wedi cael eu gwala o fwyd! Braf oedd gweld y dysgwyr yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn y Clwb Rygbi a gwneud ymdrech arbennig i siarad Cymraeg. Diolch yn fawr iddynt am eu hymroddiad a diolch hefyd i bawb a gynorthwyodd gyda'r hyfforddi. Roedd hi'n noson arbennig.



Cohobiaeth

APÊL HEN GAPEL JOHN HUGHES PONTROBERT, MALDWYN CANOLFAN UNDOD AC ADNEWYDDIAD CRISTNOGOL

Mae Ymddiriedolwyr y fangre hanesyddol a chysegredig hon mewn argyfwng oherwydd bod y to yn gollwng, ac erbyn hyn mae'r pwyllgor llywio lleol yn apelio at Gymru gyfan yn y gobaith o godi digon o arian at ofynion CADW, sef dwy ran o dair o'r cyfanswm – sydd ar hyn o bryd yn agos at £8,000 ym marn y pensaer ymgynghorol – er mwyn gwneud cais am grant i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Chwilio yr ydym am bobl garedig a fyddai'n barod i 'brynu' llechen' am £10 yr un.

Os yw eich darllenwyr yn rhannu ein cred mai trysor cenedlaethol yw'r adeilad hwn gyda'i gysylltiad agos ag ANN GRIFFITHS, gobeithiwn y byddant yn ymateb yn gadarnhaol ac yn anfon eu cyfraniadau at ein Trysorydd Mygedol, Mrs Beryl Vaughan, Tŷ Mawr, Llanerfyl, Y Trallwng, Powys SY21 0JD.

Diolch yn fawr iawn.
Nia Rhosier; Ysgrifennydd Mygedol

Yn y Begin gyda Gareth



Paratoi i'r Pasg

Y mis yma rwyf am gynnig casgliad o rysetiau fydd yn addas i'w fwynhau dros gyfnod y Pasg; pryd tri chwrs, a hyfryd bydd cael y teulu adref dros yr Ŵyl i fwynhau'r wledd.

Mae'r dechreuwyd mewn steil rhannu, ac wrth gwrs cig oen yn ganolbwynt i'r cinio. Mae'r Pasg yn cwmpo'n hwyr eleni, felly bydd yna ddigonedd o lysiau tymhorol ffres ar gael - heb anghofio'r mintys.

Daw ysbrydoliaeth y pwddin o'r deisen simnel, a bydd yn ffefryn gan bawb rwy'n siŵr. Gweinwch gyda hufen neu hufen ia.

Mwynhewch y gwledda, a Pasg Hapus

Gareth

Dechreuwyd y Pasg

4 wy
125 ml llaeth
475 ml hufen
Sest 1 lemwn
2 llwy fwrdd cennin syfi
150 g eog wedi'i fygu, a'i ddarnio
12 merllys

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C. Curwch yr wyau, llaeth, hufen, sest, cennin sifi, ac ychwanegwch halen a phupur i flasau.
2. Trowch yr eog i'r gymysgedd, ac arllwyswch i ddysgl; rhwch y merllys dros yr wyneb
3. Coginiwch am 45 munud nes yn euraidd, Gweinwch gyda salad a bara.

Cig Oen gyda Stwffin y Pasg

Coes cig oen – tua 2 kg.
100 g cnau pîn
100 g bricyll sych
100 g bara
Ychydig o nytmeg neu sinamon
100 g o berlysiau wedi'u torri
2 ewin garleg
1 wy
Sest a sudd 1 lemwn
2 llond llwy fwrdd olew
300 ml gwin

Dull

1. Malwch y cnau, bricyll, bara, perlysiau a'r ewin garleg mewn prosesydd; rhwch mewn bowlen ac ychwanegwch yr wy, lemwn a'r sbeis
2. Tynnwch yr asgwrn o'r goes, a defnyddiwch y stwffin i'w lenwi. Rholiwch a chlymchwch.
3. Gosodwch mewn tun rhostio, ac arllwyswch y gwin o'i amgylch.
4. Coginiwch ar wres 180 fan, Nwy 6 am 15-20 munud i bob 450 g.
5. Brwsiwch â mêl, gorchuddiwch â ffoil, a gadewch i orffwys.
6. Gwnewch grefi o'r suddion, a'i weini gyda llysiau tymhorol.

Cacen Siocled y Pasg

100 g marzipan wedi gratio
250 g siocled tywyll
200 g siocled llaeth
100 menyng
3 llwy fwrdd triog
200 g creision yd (cornflakes)
75 g resins
Wyau siocled bychain i addurno

Dull

1. Gwnewch gylch ar bapur gwrthsaim a'i osod ar dun.
2. Toddwch y ddau siocled, y menyng a'r triog mewn bowlen dros ddŵr cynnes
3. Ychwanegwch y creision yd, y resins a'r marzipan. Gosodwch ar y papur, a'i ffurfio'n gylch gyda thwll yn y canol i greu effaith nyth.
4. Gadewch am rhyw 2 awr. Yna llenwch ganol y nyth â'r wyau siocled.
5. Addurnwch â chywion bach melyn.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl ffrindiau,

Wel shw' mae ffrindiau bach? Mae'r haul wedi bod yn gwenu ac mae'r cennin pedr yn flancedi melyn ar bob clawdd. Rwyf wrth fy modd yn chwarae tu allan ac yn edrych ymlaen yn fawr i gael gwneud hynny yn ystod gwyliau'r Pasg. Ydych chi'n edrych ymlaen i'r gwyliau? Beth fyddwch chi'n ei wneud? Wel rydw i'n edrych ymlaen i gael stwffio fy mol yn llawn wyau sioeled blasus. Bob blwyddyn mae fy mam, Lili Loncen, yn paratoi helpa wyau allan yn yr ardd i mi a fy ffrind Gwenno'r gwningen fach wen. Wwww dwi'n edrych ymlaen yn fawr iawn. Ydych chi'n mwynhau bwyta wyau sioeled?

Rhywbeth arall a'm gwnaeth i'n hapus yn ddiweddar oedd derbyn eich holl luniau bendigedig chi. Record yn wir!! Mi fuodd hi fel ffair 'ma ym mis Mawrth a diolch yn fawr i Lexi, Mollie, Elijah, Nia, Bob, Emily, Anna, Jakub, Abbie, Guto, Charlie, Skylar, Karina, Macsen, Khaleesi, Dewi, Joey, Gruffydd, Logan, Carlson, Raees, Ieuan, Lexie, Oscar, Elliot, Hanna, Molly, Pippa, Elis, Cece, Julia, Tommy, Sophie, Rhodri, Cleo, Cari, Millie, Jac, Carter, Chris, Gruff, Llewelyn, Osian, Ayrton, Summer, Hari, Efa, Charlie, Sebastian, Harvey, Dyfan, Sion, Theo, Maisie, James, Gracie, Jacob, Jayden, Owain, Tia, Dylan a Chloe o Ysgol Bro Pedr, Sara Marged ac Aron Jac Lewis o Dihewyd, Elin Dafydd o Gwmann a Tirion Marged Tomos o Bencarreg am liwio lluniau arbennig. Ond y llun a wnaeth fy mhlesio orau y mis hwn oedd un lliwgar a thacius Amelia Subotwicz, Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Da iawn ti!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun yr wyau Pasg drygionus. Cofiwch ddanfôn eich lluniau nôl ataf erbyn dydd Sadwrn, Ebrill 20fed.



**Enillydd
ymis!**

**Amelia
Subotwicz**

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpll.com




Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog


Gwasanaeth arlwyio symudol
ar gyfer pob achlysur:

Bar symudol ar gyfer
digwyddiadau allanol
boed yn fawr neu'n fach

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Pwy yw hwn?



Oes rhywun yn adnabod y crwt bach yma? Mae'n cynnig £10 o'i arian poced ei hunan i'r sawl fydd yn ei adnabod; os bydd sawl un yn cael yr enw cywir, bydd rhaid tynnu enw'r enillydd o'r het!

Ateb i ysgrifennydd Clonc - gweler 'Pwy yw Pwy', tudalen 3 erbyn dydd Sadwrn, Ebrill 20fed.

Clwb Clonc

Ebrill

£25 rhif 168 :

Mia Evans, Llanybydder.

£20 rhif 482 :

Ifor Williams, Llambled.

£15 rhif 70 :

Sara Davies, Cwrtnewydd.

£10 rhif 317 :

Irene Jones, Llambled.

£10 rhif 166 :

Erin Evans, Llanybydder.

£10 rhif 276 :

Paul Jones, Maesycrugiau.

£5 rhif 182 :

Soffia Draycott Evenden, Llambled.

Rhifyn Mai

yn y Siopau

2 Mai

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn

22 Ebrill



Ysgol Y Dderi - Ymgom Bl. 6 ac Iau –3ydd.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llambled 2il.



Ysgol Y Dderi - Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [Ysg dros 50] – 2il.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



Ensemble Offerynnol Bl. 6 ac Iau – Ysgol Dyffryn Cledlyn 3ydd.

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR



CYFRIFWYR
SIARTEDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

LAS Recycling Ltd

GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF MASNACHOL

Am wasanaeth effeithiol a
fforddiadwy i'ch holl anghenion
gwastraff ffoniwch:

01570 421 421

Rydym yn darparu
biniau maint:
240 / 660 a 1100 Litr



LAS RECYCLING LTD
HEOL TREGARON, LLANBEDR PONT STEFFAN,
CEREDIGION. SA48 8LT



Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnwydd [Ysgol Aberaeron] - Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac Iau 2il; Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4 1af; Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 1af.



Alwena Owen, Llanllwni [Ysgol Bro Teifi] - Unawd Telyn Bl. 6 ac Iau 1af ac Unawd Piano Bl. 6 ac Iau 2il.



Jack Bayly, Ysgol Bro Pedr - Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau [D] 3ydd.



Fflur Morgan, Ysgol Dyffryn Cledlyn - Llefaru Bl. 3 a 4 - 2il.



Joseph Palmer, Ysgol Bro Pedr - Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 [D] -3ydd.



Noa Potter-Jones, Ysgol Dyffryn Cledlyn - Unawd Bl. 2 ac Iau 1af; Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau; Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau 3ydd.



Betrys Llwyd Dafydd, Ysgol Y Dderi - Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 -2il; Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 - 3ydd.



Swyn Tomos, Ysgol Dyffryn Cledlyn - Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac Iau - 3ydd.



Dawns Werin Bl. 4 ac Iau - Ysgol Dyffryn Cledlyn 2il.



Grŵp Llefaru Bl. 7, 8 a 9 - Ysgol Bro Pedr 2il.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau [D] - Ysgol Bro Pedr 1af.



Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo - Ysgol Bro Pedr 2il.